**NCFE Tystysgrif Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru)** C00/5463/0
**NCFE Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru)** C00/5463/1
**NCFE Diploma Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru)** C00/5382/5



DRAFT

# Manyleb y cymhwyster

# Crynodeb o'r cymhwyster

| | |
|---|---|
| **Teitl y cymhwyster** | NCFE Tystysgrif Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) |
| **Rhif y cymhwyster** | C00/5463/0 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA)** | 240 |
| **Cyfanswm amser y cymhwyster (CAC)** | 360 |
| **Cyfres wedi'i nythu** | Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o gyfres wedi'i nythu, sy'n cynnwys y cymwysterau canlynol :<br>• NCFE Tystysgrif Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/0)<br>• NCFE Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/1)<br>• NCFE Diploma Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/5) |
| **Oedran ieuengaf** | 16 |
| **Pwrpas y cymhwyster** | Mae'r cymhwyster hwn yn cyflwyno dysgwyr i'r sector teithio a thwristiaeth, gan feithrin eu gwybodaeth sylfaenol am y diwydiant, gwasanaeth i gwsmeriaid a meysydd gweithredol allweddol. Mae wedi'i gynllunio ar gyfer y rheini sy'n chwilio am raglen benodol i gefnogi dilyniant yn y gyfres lefel 2 i gymwysterau teithio a thwristiaeth lefel 3, neu i gyflogaeth yn y sector. Mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei ddatblygu i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru ac mae'n eu cefnogi i ymgysylltu â'r sector teithio a thwristiaeth yng Nghymru. |
| **Graddio** | Heb ei gyflawni eto/pasio/teilyngdod/rhagoriaeth/rhagoriaeth* |
| **Dull asesu** | Portffolio o dystiolaeth sy'n cael ei asesu'n fewnol a'i sicrhau'n allanol o ran ansawdd. |
| **Profiad o leoliad gwaith/diwydiant** | Nid oes angen profiad gwaith/lleoliad mewn diwydiant. |
| **Gwybodaeth am reoleiddio** | Mae hwn yn gymhwyster rheoledig. Rhif rheoleiddio'r cymhwyster hwn yw C00/5463/0. |
| **Cyllid** | Mae'r cymhwyster hwn yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus yng Nghymru. Dylai canolfannau wirio cymhwysedd i gael cyllid gyda Cymwysterau Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y cymhwyster** | NCFE Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) |
| **Rhif y cymhwyster** | C00/5463/1 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA)** | 360 |
| **Cyfanswm amser y cymhwyster (CAC)** | 540 |
| **Cyfres wedi'i nythu** | Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o gyfres wedi'i nythu, sy'n cynnwys y cymwysterau canlynol:<br><br>• NCFE Tystysgrif Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/0)<br>• NCFE Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/1)<br>• NCFE Diploma Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/5) |
| **Oedran ieuengaf** | 16 |
| **Pwrpas y cymhwyster** | Mae'r cymhwyster hwn yn ehangu dealltwriaeth dysgwyr o'r sector teithio a thwristiaeth drwy gyfuno gwybodaeth graidd ag amrywiaeth ehangach o unedau dewisol. Fe'i cynlluniwyd i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy ac ymwybyddiaeth o'r sector, gan gefnogi dilyniant i NCFE Diploma Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/5), cymwysterau teithio a thwristiaeth lefel 3, neu i swyddi sy'n gofyn am sylfaen ehangach o wybodaeth am y diwydiant. Mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei ddatblygu i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru ac mae'n eu cefnogi i ymgysylltu â'r sector teithio a thwristiaeth yng Nghymru. |
| **Graddio** | Heb ei gyflawni eto/pasio/teilyngdod/rhagoriaeth/rhagoriaeth* |
| **Dull asesu** | Portffolio o dystiolaeth sy'n cael ei asesu'n fewnol a'i sicrhau'n allanol o ran ansawdd. |
| **Profiad o leoliad gwaith/diwydiant** | Nid oes angen profiad gwaith/lleoliad mewn diwydiant. |
| **Gwybodaeth am reoleiddio** | Mae hwn yn gymhwyster rheoledig. Rhif rheoleiddio'r cymhwyster hwn yw C00/5463/1. |
| **Cyllid** | Mae'r cymhwyster hwn yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus yng Nghymru. Dylai canolfannau wirio cymhwysedd i gael cyllid gyda Cymwysterau Cymru. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Teitl y cymhwyster** | NCFE Diploma Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) |
| **Rhif y cymhwyster** | C00/5382/5 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA)** | 480 |
| **Cyfanswm amser y cymhwyster (CAC)** | 720 |
| **Cyfres wedi'i nythu** | Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o gyfres wedi'i nythu, sy'n cynnwys y cymwysterau canlynol:<br><br>• NCFE Tystysgrif Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/0)<br>• NCFE Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/1)<br>• NCFE Diploma Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/5) |
| **Oedran ieuengaf** | 16 |
| **Pwrpas y cymhwyster** | Mae'r cymhwyster hwn yn darparu rhaglen lefel 2 gynhwysfawr sy'n cynnig ehangder a dyfnder ar draws y sector teithio a thwristiaeth. Fe'i cynlluniwyd i ddatblygu'r wybodaeth helaeth, y sgiliau ymarferol a'r cymwyseddau trosglwyddadwy sydd eu hangen i symud ymlaen i astudio lefel 3, prentisiaethau neu gyflogaeth yn yr economi ymwelwyr. Mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei ddatblygu i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru ac mae'n eu cefnogi i ymgysylltu â'r sector teithio a thwristiaeth yng Nghymru. |
| **Graddio** | Heb ei gyflawni/pasio/teilyngdod/rhagoriaeth/rhagoriaeth* |
| **Dull asesu** | Portffolio o dystiolaeth sy'n cael ei asesu'n fewnol a'i sicrhau'n allanol o ran ansawdd. |
| **Profiad o leoliad gwaith/diwydiant** | Nid oes angen profiad o leoliad gwaith/diwydiant. |
| **Gwybodaeth am reoleiddio** | Mae hwn yn gymhwyster rheoledig. Rhif rheoleiddio'r cymhwyster hwn yw C00/5382/5. |
| **Cyllid** | Mae'r cymhwyster hwn yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus yng Nghymru. Dylai canolfannau wirio cymhwysedd i gael cyllid gyda Cymwysterau Cymru. |

DRAFT

# Cynnwys

**Crynodeb o'r cymhwyster** 3

**Adran 1: cyflwyniad** 8

Nodau ac amcanion 8
Canllawiau ar gyfer mynediad a chofrestru 8
Ennill y cymwysterau hyn 8
Tystysgrif 8
Tystysgrif estynedig 9
Diploma 9
Symud ymlaen gan gynnwys swyddi 9
Gofynion o ran adnoddau 9
Gofyniad amgylchedd gwaith realistig (RWE) 10
Sut mae'r cymwysterau'n cael eu hasesu 10
Asesiad mewnol 11
Paramedrau asesu 11
Llên-ladrad a defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) 13
Sicrhau ansawdd allanol 14
Ymholiadau am ganlyniadau 14
Gofynion ailgyflwyno 14
Heb gael gradd eto 14
Gwybodaeth am raddio 15
Graddio unedau a asesir yn fewnol 15
Dyfarnu'r radd derfynol 15

**Adran 2: cynnwys yr uned a chanllawiau asesu** 21

Uned 01 Gwasanaeth i gwsmeriaid yn y diwydiant teithio a thwristiaeth (TTW-02-01) 23
Uned 02 Diwydiant teithio a thwristiaeth y DU (TTW-02-02) 30
Uned 03 Cyrchfannau teithio a thwristiaeth (TTW-02-03) 37
Uned 04 Hyrwyddo yn y diwydiant teithio a thwristiaeth (TTW-02-04) 43
Uned 05 Atyniadau pwrpasol i ymwelwyr yn y DU (TTW-02-05) 50
Uned 06 Deall gwyliau pecyn (TTW-02-06) 56
Uned 07 Gweithrediadau asiantaethau teithio (TTW-02-07) 63
Uned 08 Lletygarwch yn y diwydiant teithio a thwristiaeth (TTW-02-08) 69
Uned 09 Trefnu digwyddiad (TTW-02-09) 75
Uned 10 Cyflwyniad i deithiau tywys (TTW-02-10) 82
Uned 11 Effaith darpariaeth teithio a thwristiaeth ar gymuned letyol (TTW-02-11) 89
Uned 12 Twristiaeth mewn rhanbarth poblogaidd yn y DU (TTW-02-12) 94
Uned 13 Gwybod am feysydd awyr a chwmnïau hedfan (TTW-02-13) 100
Uned 14 Cynllunio gyrfa yn y diwydiant teithio a thwristiaeth (TTW-02-14) 107
Uned 15 Profiad gwaith yn y diwydiant teithio a thwristiaeth (TTW-02-15) 114
Uned 16 Twristiaeth arfordirol y DU (TTW-02-16) 120
Uned 17 Twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth (TTW-02-17) 126
Uned 18 Twristiaeth wledig y DU (TTW-02-18) 132
Uned 19 Deall twristiaeth arbenigol (TTW-02-19) 138
Uned 20 Menter mewn twristiaeth (TTW-02-20) 144
Strategaeth asesu NCFE 151

**Adran 3: esbonio termau** 152

DRAFFT

**Adran 4: cymorth** **154**

Deunyddiau cymorth 154
Gwefannau defnyddiol 154
Deunyddiau cymorth eraill 155
Atgynhyrchu'r ddogfen hon 155

**Cysylltu â ni** **156**

**Atodiad A: unedau** **157**

Unedau gorfodol 157
Unedau dewisol 157

**Cofnod hanes newidiadau** **160**

DRAFFT

# Adran 1: cyflwyniad

Sylwch mai fersiwn ddrafft o Fanyleb y Cymhwyster yw hwn ac mae'n debygol y bydd yn newid cyn i'r fersiwn derfynol gael ei chynhyrchu ar gyfer lansio'r cymhwyster.

Rhaid i ganolfannau sicrhau eu bod yn defnyddio fersiwn ddiweddaraf Manyleb y Cymhwyster ar wefan NCFE.

## Nodau ac amcanion

Nod y cymwysterau hyn yw:

- canolbwyntio ar astudio'r diwydiant teithio a thwristiaeth
- cynnig cyfle astudio eang a manwl, gan ymgorffori sylfaen allweddol o wybodaeth
- rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau ymarferol a throsglwyddadwy sy'n berthnasol i astudiaethau pellach ac i'r gweithle.

Amcanion y cymwysterau hyn:

- datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r diwydiant teithio a thwristiaeth a'i brif feysydd gwaith
- cefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth sy'n eu paratoi i symud ymlaen i astudiaethau pellach yn y sector teithio a thwristiaeth.

## Canllawiau ar gyfer mynediad a chofrestru

Mae'r cymwysterau hyn wedi'u llunio ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno meithrin gwybodaeth a sgiliau yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Y prif fwriad yw cefnogi dysgwyr 16 i 19 oed fel rhan o raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru ond gallant hefyd fod yn addas ar gyfer dysgwyr eraill lle bo hynny'n briodol.

Mae cofrestru yn ddibynnol ar ddisgresiwn y ganolfan yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb, a dylid gwneud hynny ar Borth NCFE.

Nid oes unrhyw wybodaeth/sgiliau blaenorol penodol y mae'n rhaid i ddysgwr feddu arnynt ar gyfer y cymwysterau hyn. Fodd bynnag, efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r dysgwyr fod wedi ennill cymhwyster lefel 1 yn barod.

Mae canolfannau'n gyfrifol am sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyflawni'r unedau a'r deilliannau dysgu a chydymffurfio â gofynion llythrennedd, rhifedd ac iechyd a diogelwch perthnasol y cymhwyster.

Ni ddylai dysgwyr sydd wedi cofrestru ar y cymwysterau hyn ddilyn cymhwyster arall ar yr un lefel, neu sydd â'r un teitl/teitl tebyg, gan y gallai dyblygu dysgu effeithio ar gymhwysedd cyllido.

## Ennill y cymwysterau hyn

### Tystysgrif



DRAFFT

Er mwyn ennill NCFE Tystysgrif Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/0), mae'n ofynnol i ddysgwyr lwyddo i gyflawni 2 o'r unedau gorfodol sy'n cael eu graddio a 2 o'r unedau dewisol sy'n cael eu graddio.

### Tystysgrif estynedig

Er mwyn ennill NCFE Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/1), mae'n ofynnol i ddysgwyr lwyddo i gyflawni 2 o'r unedau gorfodol sy'n cael eu graddio a 4 o'r unedau dewisol sy'n cael eu graddio.

### Diploma

Er mwyn ennill NCFE Diploma Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/5), mae'n ofynnol i ddysgwyr lwyddo i gyflawni 2 o'r unedau gorfodol sy'n cael eu graddio a 6 o'r unedau dewisol sy'n cael eu graddio.

Edrychwch ar y rhestr o unedau yn Atodiad A neu'r crynodebau o unedau yn Adran 2 i gael rhagor o wybodaeth.

I ennill y cymwysterau hyn, rhaid i ddysgwyr ddangos eu bod wedi llwyddo i gyflawni pob un o deilliannau dysgu'r unedau fel y nodir yn y Fanyleb Cymhwyster hon. Gellir gofyn am dystysgrif rannol ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn ennill y cymhwyster llawn ond sydd wedi cyflawni o leiaf un uned gyfan; mae ffioedd tystysgrifau cyflawniad rhannol ar gael yn y ddogfen Ffioedd a Phrisiau ar wefan NCFE.

## Symud ymlaen gan gynnwys swyddi

Gallai dysgwyr sy'n ennill y cymwysterau hyn symud ymlaen i'r canlynol:

- cyflogaeth (gall gefnogi symud ymlaen i rolau yn y sector teithio a thwristiaeth):
  - cynorthwyydd gwasanaethau cwsmeriaid
  - cynorthwyydd twristiaeth
  - cynorthwyydd gwasanaethau ymwelwyr
  - cynorthwyydd lletygarwch
  - cynorthwyydd asiantaeth deithio
- addysg bellach (cymwysterau lefel 2 mewn teithio a thwristiaeth yn y gyfres hon):
  - NCFE Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/1)
  - NCFE Diploma Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/5)
- addysg bellach (cymwysterau lefel 3 neu uwch mewn teithio a thwristiaeth) gan gynnwys:
  - NCFE Tystysgrif Ragarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/2)
  - NCFE Tystysgrif Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/3)
  - NCFE Diploma Rhagarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/4)
  - NCFE Diploma Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/5)
  - NCFE Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/6).

## Gofynion o ran adnoddau

Nid oes unrhyw ofynion gorfodol o ran adnoddau ar gyfer y cymwysterau hyn, ond rhaid i ganolfannau sicrhau bod adnoddau addas ar gael i ddysgwyr i'w galluogi i gwmpasu'r holl ganlyniadau dysgu priodol.

## Gofyniad amgylchedd gwaith realistig (RWE)

Yn ddelfrydol, dylid asesu meini prawf sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn y gweithle. Fodd bynnag, mewn achosion lle nad yw hyn yn ymarferol, gellir asesu dysgwyr mewn amgylchedd gwaith realistig (RWE) sydd wedi'i ddylunio i efelychu lleoliadau gwaith go iawn.

Mae'n hanfodol bod sefydliadau sy'n defnyddio amgylchedd gwaith realistig yn sicrhau ei fod yn adlewyrchu amgylcheddau gwaith cyfredol a dilys yn gywir. Drwy wneud hynny, gall cyflogwyr fod yn hyderus y bydd cymhwysedd a ddangosir gan ddysgwr mewn amgylchedd gwaith realistig yn cael ei drosi'n berfformiad llwyddiannus mewn cyflogaeth. Wrth sefydlu amgylchedd gwaith realistig, dylid ystyried y ffactorau canlynol.

**Bod y sefyllfa waith sy'n cael ei chynrychioli yn berthnasol i'r gofynion cymhwysedd sy'n cael eu hasesu:**

- dylai'r sefyllfa waith fod yn debyg iawn i'r sefyllfa berthnasol
- rhaid i offer ac adnoddau sy'n atgynhyrchu'r sefyllfa waith fod yn gyfredol ac ar gael i'w defnyddio i sicrhau bod modd bodloni gofynion asesu
- dylai cyfyngiadau amser, mynediad at adnoddau ac argaeledd gwybodaeth adlewyrchu amodau go iawn.

**Mae gweithgareddau gwaith y dysgwr yn adlewyrchu'r rhai a geir yn yr amgylchedd gwaith sy'n cael ei gynrychioli, er enghraifft:**

- dylai rhyngweithio â chydweithwyr ac eraill adlewyrchu dulliau cyfathrebu disgwyliedig
- rhaid cwblhau'r tasgau o fewn amserlen dderbyniol
- rhaid i ddysgwyr allu cyflawni swmp realistig o waith fel y disgwylid yn y sefyllfa waith sy'n cael ei chynrychioli
- mae dysgwyr yn gweithredu'n broffesiynol gyda dealltwriaeth glir o'u gweithgareddau gwaith a'u cyfrifoldebau
- bod adborth gan gydweithwyr ac eraill (er enghraifft, cwsmeriaid neu ddefnyddwyr gwasanaeth) yn cael ei gynnal ac y gweithredir arno
- rhaid ystyried unrhyw ddeddfwriaeth, rheoliadau neu weithdrefnau safonol a fyddai'n cael eu dilyn yn y gweithle.

## Sut mae'r cymwysterau'n cael eu hasesu

Asesu yw'r broses o fesur sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwr yn erbyn y safonau a bennir mewn cymhwyster.

Mae'r cymwysterau hyn yn cael eu hasesu'n fewnol ac mae eu hansawdd yn cael ei sicrhau'n allanol.

Mae'r asesiad yn cynnwys un elfen:

- portffolio o dystiolaeth sy'n cael ei asesu'n fewnol gan staff y ganolfan a'i sicrhau'n allanol gan NCFE (rhaid i'r ganolfan gwblhau'r gwaith sicrhau ansawdd mewnol fel arfer o hyd).

Rhaid i ddysgwyr fod yn llwyddiannus yn yr elfen hon i ennill:

- NCFE Tystysgrif Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/0)



DRAFT

- NCFE Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/1)
- NCFE Diploma Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/5).

Gall dysgwyr nad ydynt yn llwyddiannus ailgyflwyno gwaith o fewn y cyfnod cofrestru; fodd bynnag, efallai y codir tâl mewn achosion lle mae angen ymweliadau sicrhau ansawdd allanol ychwanegol. Gweler yr adran gofynion Ailgyflwyno isod am fanylion llawn y broses ailgyflwyno.

Oni nodir yn wahanol yn y Fanyleb Cymhwyster hon, rhaid i bob dysgwr sy'n dilyn y cymwysterau hyn gael ei asesu yn Gymraeg neu yn Saesneg, a rhaid i'r holl dystiolaeth asesu a gyflwynir ar gyfer sicrhau ansawdd allanol fod yn Gymraeg neu'n Saesneg.

## Asesiad mewnol

Rhaid i bob dysgwr greu portffolio o dystiolaeth sy'n deillio o dasgau asesu priodol i ddangos ei fod wedi cyflawni'r holl deilliannau dysgu sy'n gysylltiedig â phob uned. Dylai'r tasgau asesu ganiatáu i'r dysgwr ymateb i sefyllfa go iawn y gallai ei hwynebu mewn cyflogaeth. Ar ôl cwblhau pob uned, rhaid i ddysgwyr ddatgan mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith a gynhyrchir a rhaid i'r asesydd ei gydlofnodi. Rhoddir enghreifftiau o dystiolaeth addas ar gyfer portffolio pob uned yn Adran 2.

Mae cyfantoli yn yr unedau sy'n cael eu hasesu'n fewnol gan fod y disgrifyddion graddio'n seiliedig ar deilliannau dysgu yn hytrach na meini prawf asesu penodol. Mae hyn yn caniatáu mwy o farn broffesiynol ar ran yr asesydd o ran lefel perfformiad cyffredinol y dysgwr yn erbyn y deilliannau dysgu.

Os oes angen i ganolfan greu ei thasgau asesu mewnol ei hun, mae pedair elfen hanfodol wrth gynhyrchu tasgau asesu llwyddiannus mewn canolfan; sef:

- sicrhau bod y tasgau asesu yn ystyrlon gyda chanlyniadau clir y gellir eu hasesu
- ymdrin yn briodol â'r cynnwys, y deilliannau dysgu neu'r meini prawf asesu
- cael cyd-destun neu senario dilys a diddorol
- cynnwys digon o gyfleoedd i ymestyn a herio'r rhai sy'n cyflawni'n uwch.

## Paramedrau asesu

### Hyd yr asesiad

Gan fod y cymwysterau hyn yn cael eu hasesu'n fewnol drwy bortffolio tystiolaeth, nid oes cyfnod asesu penodol wedi'i ragnodi. Mae canolfannau'n strwythuro gweithgareddau asesu'n hyblyg ar draws y rhaglen, gan alluogi dysgwyr i gynhyrchu tystiolaeth ar adegau priodol yn ystod y ddarpariaeth. Dylai canolfannau sicrhau bod nifer gynrychioliadol o oriau asesu wedi'u hamserlennu o fewn eu cynllun gwaith, a bod gweithgareddau asesu mewnol yn cael eu cynnal y tu allan i sesiynau addysgu a dysgu rheolaidd.

### Goruchwyliaeth

Nid oes angen un lefel benodol o oruchwyliaeth ar gyfer cymhwyster sy'n seiliedig ar bortffolio ac sy'n cael ei asesu'n fewnol. Mae goruchwyliaeth yn cael ei chymhwyso'n gymesur ac yn cael ei phennu gan natur y gweithgaredd asesu. Mae'r dull hwn yn cydnabod y gall asesu ddigwydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol ac yn annibynnol.



DRAFT

Yn ystod gweithgareddau sy'n rhan o oriau dysgu dan arweiniad (ODDA), mae dysgwyr fel arfer yn gweithio dan oruchwyliaeth uniongyrchol tiwtor, asesydd neu aelod priodol arall o staff y ganolfan. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau ymarferol wedi'u harsylwi, sesiynau asesu strwythuredig ac unrhyw asesiad sy'n digwydd mewn amser real. Ar gyfer canlyniadau sy'n seiliedig ar sgiliau, mae goruchwyliaeth yn fwyaf amlwg drwy arsylwi uniongyrchol, yn aml mewn amgylchedd gwaith realistig (RWE), lle mae dysgwyr yn dangos sgiliau o dan amodau sy'n cael eu rheoli a'u harsylwi.

Mae cyfran sylweddol o'r asesu yn digwydd y tu allan i oruchwyliaeth uniongyrchol, lle mae dysgwyr yn cwblhau tasgau fel aseiniadau ysgrifenedig, ymchwil ac adroddiadau myfyriol yn annibynnol ond dan gyfarwyddyd y ganolfan. Mae hyn yn gyson â chyfanswm yr amser cymhwyso (CAC), sy'n cynnwys gweithgarwch nad yw'n cael ei wneud dan oruchwyliaeth uniongyrchol ond sy'n dal i gael ei gynllunio a'i arwain gan y ganolfan.

Mae canolfannau'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau goruchwylio priodol ar waith i gynnal dilysrwydd tystiolaeth dysgwyr, wedi'u hategu gan brosesau sicrhau ansawdd mewnol.

## Adnoddau a ganiateir

Caniateir i ddysgwyr gael mynediad at amrywiaeth o adnoddau priodol yn ystod yr asesiad, yn unol â natur y dasg a'r rheolaethau a roddir ar waith gan y ganolfan. Gall ddysgwyr ddefnyddio:

- deunyddiau dysgu ac addysgu a ddarperir gan y ganolfan, fel nodiadau, taflenni a chyflwyniadau
- gwerslyfrau perthnasol ac adnoddau cyhoeddedig
- gwefannau a ffynonellau ar-lein cymeradwy, gan gynnwys defnyddio’r rhyngrwyd at ddibenion ymchwil
- deunyddiau’r gweithle neu RWE, lle bo hynny’n berthnasol
- nodiadau personol a gwaith drafft, lle mae hyn yn rhan o’r broses ddysgu a datblygu.

Mae canolfannau’n gyfrifol am sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith i gynnal dilysrwydd gwaith dysgwyr, atal llên-ladrad neu gamymarfer, a sicrhau mai gwaith annibynnol y dysgwr ei hun yw tystiolaeth yr asesiad. Lle bo angen, er enghraifft yn ystod gweithgareddau a arsylwir neu a reolir, gall canolfannau osod cyfyngiadau ar fynediad at adnoddau i sicrhau dilysrwydd penderfyniadau asesu.

## Adborth i ddysgwyr

Mae canolfannau’n gyfrifol am sicrhau bod adborth a roddir i ddysgwyr yn ystod y broses asesu yn cefnogi dysgu heb beryglu cywirdeb na dilysrwydd gwaith a asesir.

Yn ystod yr addysgu a’r dysgu, gall tiwtoriaid ddarparu adborth cyffredinol i gynorthwyo cynnydd dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys:

- cyfeirio dysgwyr at y deilliannau dysgu a’r disgrifyddion graddio
- egluro gofynion y dasg neu’r brîff asesu
- adborth cyffredinol ar gadw amser, presenoldeb a phrydlondeb.

Ni chaniateir y canlynol ar unrhyw gam o’r broses asesu:

- hyfforddi dysgwyr ar sut i gynhyrchu eu tystiolaeth
- darparu rhestr benodol o’r camau y mae’n rhaid i ddysgwr eu cymryd i ennill gradd benodol
- cywiro neu ailysgrifennu unrhyw ran o waith dysgwr.

Pan fydd canolfan yn rhoi adborth sy'n mynd y tu hwnt i'r paramedrau hyn, efallai y bydd cyflwyniad y dysgwr yn cael ei annilysu.

Ar ôl i radd uned gael ei hasesu a'i chyflwyno ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol, rhaid i'r asesydd beidio â rhoi adborth nac arweiniad ar sut i wella'r dystiolaeth. Pan fydd dysgwr yn ymarfer ei gyfle i ailgyflwyno ar ôl bancio gradd, rhaid i'r adborth nodi lle mae bylchau'n bodoli ond ni ddylai gyfarwyddo'r dysgwr ar sut i fynd i'r afael â nhw.

Dylai canolfannau gyfeirio at ganllawiau Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol ar gyfer Cymwysterau a Asesir yn Fewnol NCFE, sydd ar gael ar wefan NCFE, wrth gefnogi dysgwyr sydd angen addasiadau i drefniadau asesu.

## Llên-ladrad a defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI)

Cyfrifoldeb y canolfannau yw sicrhau bod mesurau lliniaru ar waith i atal camddefnyddio rhaglenni Deallusrwydd Artiffisial (AI) wrth gynhyrchu gwaith sy'n cael ei asesu'n fewnol. Rhaid i'r gwaith a gyflwynir fod yn waith y dysgwr ei hun.

Cynghorir canolfannau i ddatblygu a rhannu polisïau a chanllawiau clir gyda dysgwyr yn ogystal â chael canlyniadau clir wedi'u hamlinellu yn eu polisi camymarfer/llên-ladrad eu hunain. Ystyrir ei bod yn arfer da gwneud dysgwyr yn ymwybodol o'r hyn sy'n gyfystyr â chamddefnyddio deallusrwydd artiffisial drwy amlinellu'r gwahaniaeth rhwng defnyddio deallusrwydd artiffisial i gynhyrchu'r gwaith, na ddylid ei ganiatáu, a'i ddefnyddio i'w helpu i gwblhau (fel creu syniadau neu awgrymiadau defnyddiol) a bod unrhyw ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn cael ei ddatgan gan ddysgwyr gyda'r gwaith a gyflwynir ganddynt.

Mae'n ofynnol hefyd i ganolfannau ddefnyddio offer canfod llên-ladrad addas fel rhan o'u prosesau sicrhau ansawdd mewnol, i ganfod camddefnydd posibl o AI a sicrhau dilysrwydd tystiolaeth dysgwyr.

Rhaid i'r dysgwr nodi'n glir bob ffynhonnell a chyfeirnod a ddefnyddir mewn gwaith a asesir. Rhaid i unrhyw ddeunydd a ddyfynnir gael ei farcio'n glir gyda chyfeiriad wedi'i ddarparu. Dylai dysgwyr gyfeirio at Ganllaw i Ddysgwyr NCFE ar Gyfeirnodi, sydd ar gael ar wefan NCFE.

Er mwyn lliniaru'r risgiau o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn amhriodol, gallai canolfannau hefyd ystyried y canlynol:

- defnyddio tasgau cydweithredol lle gall cymheiriaid gadarnhau mai gwaith y dysgwr ei hun yw'r gwaith
- creu tasgau gan gynnwys dadansoddi beirniadol neu fyfyrio ar brofiadau personol na ellir eu cynhyrchu'n dda gan AI
- gofyn i ddysgwyr gyflwyno deunyddiau drafft neu ddarparu diweddariadau ar wahanol adegau cyn eu cyflwyno
- cynnwys tasgau ysgrifenedig gyda thrafodaethau proffesiynol dilynol (lle bo hynny'n briodol) i sicrhau eu bod yn gallu dangos dealltwriaeth o bynciau ar lafar yn ogystal ag yn ysgrifenedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mholisi a Chanllawiau Camymarfer a Chamweinyddu NCFE ar Ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI), sy'n darparu dolen i ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ), sydd ill dau ar gael ar wefan NCFE.



DRAFT

## Sicrhau ansawdd allanol

Rhaid cyflwyno graddau wedi'u hasesu'n grynodol a'u sicrhau o ran ansawdd yn fewnol ar gyfer unedau wedi'u cwblhau drwy Borth NCFE, cyn i adolygiad sicrhau ansawdd allanol gael ei gynnal. Yn dilyn yr adolygiad sicrhau ansawdd allanol, bydd graddau'r uned naill ai'n cael eu derbyn a'u bancio gan eich swyddog sicrhau ansawdd allanol neu, os ydynt yn anghytuno â'r graddau, byddant yn cael eu gwrthod.

## Ymholiadau am ganlyniadau

Rhaid cyflwyno pob ymholiad sy'n ymwneud â chanlyniadau dysgwyr yn unol â'n Polisi Ymholiadau am Ganlyniadau a Phenderfyniadau Asesu, sydd ar gael ar wefan NCFE.

## Gofynion ailgyflwyno

Caniateir i ddysgwyr adolygu ac ailddrafftio eu gwaith yn rhydd ar unrhyw adeg cyn ei gyflwyno'n derfynol i'r asesydd ar gyfer graddio ar ddiwedd uned. Bydd dysgwyr yn cael un cyfle i ailgyflwyno fesul uned sy'n cael ei hasesu'n fewnol, a fydd yn cael ei sbarduno ar ôl asesu gradd yr uned, sicrhau ei hansawdd yn fewnol a'i bancio gan y sicrhawr ansawdd allanol – gan roi cyfanswm o ddwy ymgais fesul uned.

Os nad yw dysgwr wedi bodloni'r safon llwyddo, gall ailgyflwyno i fodloni'r meini prawf llwyddo; mae'r ailgyflwyniad yn cael ei gapio ar radd llwyddo. Os yw dysgwr eisoes wedi pasio ac yn dymuno gwella ei radd, gall ailgyflwyno heb i gap gradd gael ei osod, gyda'r radd derfynol yn seiliedig ar ansawdd y gwaith a ailgyflwynwyd.

Rhaid i ailgyflwyniadau gael eu hawdurdodi gan berson sicrhau ansawdd mewnol y ganolfan. Rhaid cyflwyno tystiolaeth ddiwygiedig o fewn 15 diwrnod gwaith i dderbyn adborth gan yr asesydd ac o fewn cyfnod cofrestru'r dysgwr.

Gan fod graddio'n seiliedig ar y deilliant dysgu yn ei gyfanrwydd, mae ailgyflwyno'n cwmpasu'r deilliant dysgu llawn yn hytrach nag AC unigol. Dylai dysgwyr sicrhau bod tystiolaeth a ailgyflwynir yn mynd i'r afael â'r holl fylchau a nodwyd ar draws y deilliant dysgu.

Gall adborth yr asesydd ond egluro meysydd lle nad yw'r lefel perfformiad isaf neu ddisgwyliedig wedi'i chyrraedd. Ni ddylai aseswyr roi arweiniad ar sut i wella gwaith er mwyn bodloni'r meini prawf asesu neu ragori arnynt. Gweler yr adran Adborth i ddysgwyr uchod am fanylion llawn.

Rhaid i ganolfannau gadw gwaith gwreiddiol a diwygiedig y dysgwr, ei radd gychwynnol, adborth yr asesydd a'i radd derfynol at ddibenion Sicrhau Ansawdd Allanol. Pan fydd sicrhawr ansawdd allanol yn gwrthod gradd wedi'i bancio, rhaid i'r ganolfan ailasesu ac ailgyflwyno'r radd ddiwygiedig; ni fydd y gwaith a wrthodwyd yn cael ei ddychwelyd i'r dysgwr. Efallai y codir tâl pan fydd ailgyflwyno yn gofyn am ymweliad Sicrhau Ansawdd Allanol ychwanegol.

## Heb gael gradd eto

Bydd canlyniad nad yw'n cyflawni gradd pasio yn cael ei raddio fel gradd sydd heb ei chyflawni eto. Efallai y bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ailgyflwyno. Gweler yr adran ar ofynion Ailgyflwyno uchod.

## Gwybodaeth am raddio

Mae pob uned o'r cymhwyster yn cael ei graddio gan ddefnyddio'r strwythur canlynol: heb ei gyflawni eto, pasio, teilyngdod, rhagoriaeth. Dyfernir gradd rhagoriaeth* ar lefel cymhwyster yn unig.

### Graddio unedau a asesir yn fewnol

Mae disgrifyddion graddio wedi cael eu hysgrifennu ar gyfer pob un o'r deilliannau dysgu mewn uned. Rhaid i aseswyr fod yn hyderus bod tystiolaeth wedi'i chyflwyno o'r holl deilliannau dysgu, o leiaf, a'u bod wedi cael eu bodloni gan y dysgwr. Rhaid i aseswyr wneud penderfyniad ar sail y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y dysgwr i benderfynu ar y penderfyniad graddio ar gyfer yr uned.

Pan fydd aseswyr yn hyderus bod yr holl ddisgrifyddion pasio wedi cael eu bodloni, gallant symud ymlaen i benderfynu a yw'r disgrifyddion teilyngdod wedi cael eu bodloni. Os yw'r asesydd yn hyderus bod yr holl ddisgrifyddion teilyngdod wedi cael eu bodloni, gall benderfynu a yw'r disgrifiadau rhagoriaeth wedi cael eu bodloni. Wrth i'r disgrifiadau graddio ddatblygu o feini prawf y radd flaenorol, rhaid i'r dystiolaeth fodloni 100% o'r disgrifiadau gradd er mwyn i'r radd honno gael ei dyfarnu ar gyfer yr uned.

Os nad oes gan y dysgwr ddigon o dystiolaeth i fodloni'r meini prawf pasio, rhaid rhoi gradd "heb ei gyflawni eto" ar gyfer yr uned.

Yna, rhaid i ganolfannau gyflwyno gradd pob uned drwy Borth NCFE. Bydd y graddau a gyflwynir yn cael eu gwirio a'u cadarnhau drwy'r broses sicrhau ansawdd allanol. Gelwir hyn yn 'fancio' unedau. Ar ôl i radd dysgwr gael ei bancio, caniateir un cyfle iddo adolygu ac ailddrafftio ei waith. Gweler yr adran gofynion Ailgyflwyno uchod am fanylion llawn.

Mae'r gydran asesu mewnol yn seiliedig ar berfformiad tasgau penagored sy'n cael eu hasesu'n gyfannol yn erbyn y disgrifyddion graddio er mwyn cyflawni gradd.

Mae angen dangos tystiolaeth o'r holl bwyntiau asesu ym mhortffolio'r dysgwr, ond mae'r radd a ddyfernir yn seiliedig ar safon y gwaith ar gyfer y deilliannau dysgu yn eu cyfanrwydd. Mae hyn yn caniatáu mwy o farnu proffesiynol ar ran yr asesydd o ran lefel perfformiad cyffredinol y dysgwr yn erbyn y deilliannau dysgu.

### Dyfarnu'r radd derfynol

Pennir gradd derfynol y cymhwyster drwy gyfuno'r graddau a gyflawnwyd ar gyfer pob uned gan ddefnyddio matrics graddio a ddiffiniwyd ymlaen llaw.

Dyfernir gradd derfynol y cymhwyster fel un o'r canlynol: heb ei gyflawni eto, pasio, teilyngdod, rhagoriaeth neu ragoriaeth*. Dyfernir rhagoriaeth* pan fydd dysgwr yn cyflawni rhagoriaeth ym mhob uned sy'n cael ei graddio yn y cymhwyster.

Bydd NCFE yn rhoi'r radd derfynol i'r ganolfan ar ôl i'r ganolfan hawlio tystysgrif y dysgwr drwy Borth NCFE. I gael rhagor o wybodaeth am asesu, cyfeiriwch at y Canllaw i Ddefnyddwyr a'r Adroddiad Sicrhau Ansawdd Allanol, sydd ar gael ar wefan NCFE.

## Tystysgrif

I gael NCFE Tystysgrif Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/0), rhaid i ddysgwyr lwyddo i gyflawni 2 uned orfodol sy'n cael ei graddio a 2 uned ddewisol sy'n cael ei graddio. Mae hyn yn golygu bod pedair gradd yn cael eu cyfuno i bennu gradd gyffredinol y cymhwyster.

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae graddau pob uned yn cael eu cyfuno i ffurfio gradd gyffredinol y cymhwyster.

| Graddau'r uned | | | | Gradd derfynol y cymhwyster |
|---|---|---|---|---|
| P | P | P | P | **P** |
| T | T | T | T | **T** |
| Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh*** |
| P | P | P | T | **P** |
| P | P | P | Rh | **P** |
| P | T | T | T | **T** |
| T | T | T | Rh | **T** |
| P | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| T | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| P | P | T | T | **T** |
| P | P | Rh | Rh | **T** |
| T | T | Rh | Rh | **Rh** |
| P | P | T | Rh | **T** |
| P | T | T | Rh | **T** |
| P | T | Rh | Rh | **T** |

DRAFT

## Tystysgrif estynedig

I gael NCFE Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/1), rhaid i ddysgwyr lwyddo i gyflawni 2 uned orfodol sy'n cael ei graddio a 4 uned ddewisol sy'n cael ei graddio. Mae hyn yn golygu bod chwe gradd yn cael eu cyfuno i bennu gradd gyffredinol y cymhwyster.

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae graddau pob uned yn cael eu cyfuno i ffurfio gradd gyffredinol y cymhwyster.

| Graddau'r uned | | | | | | Gradd derfynol y cymhwyster |
|---|---|---|---|---|---|---|
| P | P | P | P | P | P | **P** |
| T | T | T | T | T | T | **T** |
| Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh*** |
| P | P | P | P | P | T | **P** |
| P | P | P | P | P | Rh | **P** |
| P | T | T | T | T | T | **T** |
| T | T | T | T | T | Rh | **T** |
| P | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| T | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| P | P | P | P | T | T | **P** |
| P | P | P | P | Rh | Rh | **T** |
| P | P | T | T | T | T | **T** |
| T | T | T | T | Rh | Rh | **T** |
| P | P | Rh | Rh | Rh | Rh | **T** |
| T | T | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| P | P | P | P | T | Rh | **P** |
| P | T | T | T | T | Rh | **T** |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| P | T | Rh | Rh | Rh | Rh | **T** |
| P | P | P | T | T | T | **T** |
| P | P | P | Rh | Rh | Rh | **T** |
| T | T | T | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| P | P | P | T | T | Rh | **T** |
| P | P | P | T | Rh | Rh | **T** |
| P | P | T | T | T | Rh | **T** |
| P | T | T | T | Rh | Rh | **T** |
| P | P | T | Rh | Rh | Rh | **T** |
| P | T | T | Rh | Rh | Rh | **T** |
| P | P | T | T | Rh | Rh | **T** |

## Diploma

I gael NCFE Diploma Lefel 2 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/5), rhaid i ddysgwyr lwyddo i gyflawni 2 uned orfodol sy'n cael ei graddio a 6 uned ddewisol sy'n cael ei graddio. Mae hyn yn golygu bod wyth gradd yn cael eu cyfuno i bennu gradd gyffredinol y cymhwyster.

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae graddau pob uned yn cael eu cyfuno i ffurfio gradd gyffredinol y cymhwyster.

| Graddau'r uned | | | | | | | | Gradd derfynol y cymhwyster |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | P | P | P | P | P | P | P | **P** |
| T | T | T | T | T | T | T | T | **T** |
| Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh*** |
| P | P | P | P | P | P | P | T | **P** |
| P | P | P | P | P | P | P | Rh | **P** |

DRAFT

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | P | P | P | P | P | T | T | **P** |
| P | P | P | P | P | P | T | Rh | **P** |
| P | P | P | P | P | P | Rh | Rh | **P** |
| P | P | P | P | P | T | T | T | **P** |
| P | P | P | P | P | T | T | Rh | **P** |
| P | P | P | P | P | T | Rh | Rh | **P** |
| P | P | P | P | P | Rh | Rh | Rh | **P** |
| P | P | P | P | T | T | T | T | **T** |
| P | P | P | P | T | T | T | Rh | **T** |
| P | P | P | P | T | T | Rh | Rh | **T** |
| P | P | P | P | T | Rh | Rh | Rh | **T** |
| P | P | P | P | Rh | Rh | Rh | Rh | **T** |
| P | P | P | T | T | T | T | T | **T** |
| P | P | P | T | T | T | T | Rh | **T** |
| P | P | P | T | T | T | Rh | Rh | **T** |
| P | P | P | T | T | Rh | Rh | Rh | **T** |
| P | P | P | T | Rh | Rh | Rh | Rh | **T** |
| P | P | P | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| P | P | T | T | T | T | T | T | **T** |
| P | P | T | T | T | T | T | Rh | **T** |
| P | P | T | T | T | T | Rh | Rh | **T** |
| P | P | T | T | T | Rh | Rh | Rh | **T** |

DRAFT

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | P | T | T | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| P | P | T | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| P | P | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| P | T | T | T | T | T | T | T | **T** |
| P | T | T | T | T | T | T | Rh | **T** |
| P | T | T | T | T | T | Rh | Rh | **T** |
| P | T | T | T | T | Rh | Rh | Rh | **T** |
| P | T | T | T | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| P | T | T | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| P | T | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| P | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| T | T | T | T | T | T | T | Rh | **T** |
| T | T | T | T | T | T | Rh | Rh | **T** |
| T | T | T | T | T | Rh | Rh | Rh | **T** |
| T | T | T | T | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| T | T | T | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| T | T | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh** |
| T | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | Rh | **Rh** |

**Nid yw NCFE yn rhagweld unrhyw newidiadau i'r ffordd rydym yn cyfuno graddau nac i unrhyw drothwyon ar gyfer gradd gyffredinol; fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau eithriadol lle mae'n rhaid gwneud hynny i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal dros amser. Felly, mae'n bosibl y bydd trothwyon graddau cyffredinol a gyhoeddir ym Manyleb y Cymhwyster hwn yn newid.**

DRAFT

# Adran 2: cynnwys yr uned a chanllawiau asesu

Mae'r adran hon yn rhoi manylion strwythur a chynnwys y cymwysterau hyn, gan gynnwys graddio, lefelau, ac oriau dysgu dan arweiniad (ODDA).

## Sut mae tablau'r uned yn gweithio

Mae pob uned yn cynnwys adran ystod ac adran canllawiau cyflawni ac asesu.

Mae'r adran ystod yn nodi'r cynnwys ar gyfer pob maen prawf asesu. Mae'n egluro beth mae angen i ddysgwyr ei wybod a'i ddeall, dyfnder ac ehangder y cynnwys a ddisgwylir, a'r cynnwys sylfaenol y mae'n rhaid i ddysgwyr roi sylw iddo fel tystiolaeth.

Mae'r ystod yn defnyddio dau fath o gofnod i wneud hyn yn glir:

- **rhaid cynnwys** – cynnwys gorfodol. Rhaid i ddysgwyr a chanolfannau roi sylw i'r cynnwys hwn.
- **gall gynnwys** – cynnwys dewisol, enghreifftiol neu gynnwys a awgrymir. Mae'r cofnodion hyn yn dangos y cwmpas a'r dyfnder a ddisgwylir, a gellir eu defnyddio i lywio'r prosesau addysgu a dysgu, ond does dim rhaid i ganolfannau a dysgwyr eu dilyn.

Ar ddiwedd cynnwys ystod y meini prawf asesu, mae gofyniad asesu yn nodi'r cynnwys sylfaenol y mae'n rhaid i ddysgwr roi sylw iddo er mwyn dangos ei fod yn bodloni'r maen prawf asesu hwnnw. Mae bodloni'r gofyniad asesu yn cadarnhau bod y cynnwys angenrheidiol wedi cael sylw – nid yw hynny'n pennu'r radd fydd yn cael ei dyfarnu.

Mae'r adran canllawiau cyflawni ac asesu yn darparu gwybodaeth ategol i ganolfannau ar fformatau tystiolaeth, gwaith a gyflwynir, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a materion ymarferol eraill. Mae'n berthnasol i'r uned gyfan yn hytrach nag i faen prawf asesu unigol.

## Gofynion graddio ac asesu

Mae gan y gofyniad asesu a'r disgrifyddion graddio ddibenion gwahanol, a rhaid bodloni'r naill a'r llall.

Mae'r gofyniad asesu yn pennu'r cynnwys sylfaenol y mae'n rhaid i ddysgwr roi sylw iddo er mwyn cyflawni'r maen prawf asesu. Mae'r disgrifyddion graddio yn pennu ansawdd y ffordd o ddangos y cynnwys hwnnw, o'r lefel pasio hyd at ragoriaeth. Nid yw dysgwr sy'n cynhyrchu gwaith o safon rhagoriaeth ond sydd heb fodloni'r gofyniad asesu ar gyfer maen prawf asesu wedi dangos yn llawn ei fod yn bodloni'r maen prawf asesu hwnnw, ni waeth beth yw ansawdd yr hyn y mae wedi'i gynhyrchu.

## Mathau o dystiolaeth

Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob uned. O fewn portffolios dysgwyr, mae mathau eraill o dystiolaeth yn dderbyniol os rhoddir sylw i'r holl deilliannau dysgu ac os oes modd i ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir gael ei sicrhau'n fewnol ac yn allanol. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.

Gellir cyflwyno tystiolaeth ar ffurf print neu ddigidol lle bo hynny'n briodol, a does dim rhaid i ddysgwyr argraffu gwaith pan fydd modd ei gyflwyno'n ddigidol.



DRAFT

Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol.

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae Manylebau Cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.

## Ymestyn a herio

Dylid ystyried y disgrifyddion graddio ochr yn ochr â'r canllawiau cyflawni ac asesu a ddarperir ym mhob uned. Mae canolfannau'n cael eu hannog i gefnogi dysgwyr i ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau perthnasol ac esboniad o ddyfnder priodol wrth ddatblygu ymatebion. Gellir helpu i ymestyn a herio ar lefel ychwanegol drwy brosesau cyflawni ac arweiniad y ganolfan.

Mae'r esboniad o'r termau'n egluro sut mae'r termau sy'n ymddangos yng nghynnwys yr uned yn cael eu defnyddio yn y cymwysterau hyn. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld yn Adran 3.

DRAFFT

# Uned 01 Gwasanaeth i gwsmeriaid yn y diwydiant teithio a thwristiaeth (TTW-02-01)

| **Crynodeb o'r uned** | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o bwysigrwydd diwallu anghenion cwsmeriaid yn y diwydiant teithio a thwristiaeth, a'r gwahanol fathau o gyfleusterau a gwasanaethau. Bydd y dysgwr yn dangos sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid a sut i ddelio â sefyllfaoedd heriol. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Gorfodol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall pwysigrwydd diwallu anghenion cwsmeriaid yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 1.1 Esbonio pwysigrwydd **gwasanaeth i gwsmeriaid** i **sefydliadau** teithio a thwristiaeth a'u **cwsmeriaid** | Dod i gasgliadau cywir am bwysigrwydd gwasanaeth i gwsmeriaid i sefydliadau teithio a thwristiaeth ac anghenion cwsmeriaid ar sail rhywfaint o wybodaeth o ddwy ffynhonnell o leiaf | Dod i gasgliadau cywir am bwysigrwydd gwasanaeth i gwsmeriaid i sefydliadau teithio a thwristiaeth ac anghenion cwsmeriaid ar sail yr holl wybodaeth am gyfleusterau a gwasanaethau | Dod i gasgliadau cywir am bwysigrwydd gwasanaeth i gwsmeriaid i sefydliadau teithio a thwristiaeth ac anghenion cwsmeriaid, gan asesu'r holl wybodaeth am gyfleusterau a gwasanaethau |
| | 1.2 Esbonio anghenion cwsmeriaid a sut maent yn cael eu diwallu mewn gwahanol fathau o **gyfleusterau a gwasanaethau** | Defnyddio gwybodaeth am gyfleusterau a gwasanaethau, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am gyfleusterau a gwasanaethau, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am gyfleusterau a gwasanaethau, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun |
| 2. Gallu darparu gwasanaeth i gwsmeriaid mewn | 2.1 Dangos **sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid** mewn | Dewis a defnyddio'r sgiliau a'r prosesau | Dewis a defnyddio'r sgiliau a'r prosesau gwasanaeth i | Cyfiawnhau'r dewis o sgiliau a phrosesau gwasanaeth i |

DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth | gwahanol **sefyllfaoedd** teithio a thwristiaeth | gwasanaeth i gwsmeriaid priodol | gwsmeriaid mwyaf priodol gydag esboniad o'i ddewis | gwsmeriaid priodol a'u defnyddio'n gyson |
| | 2.2 Dangos sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid wrth ddelio â **sefyllfaoedd heriol yn y diwydiant teithio a thwristiaeth** | | | |
| | 2.3 Dangos bod dogfennau ysgrifenedig yn cael eu cynhyrchu i gefnogi gwasanaeth i gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth | | | |

| **Ystod** |
|---|
| **1.1** Gall **gwasanaeth i gwsmeriaid** gynnwys:<br><br>• siopwr dirgel<br>• Canllaw Michelin<br>• llwyfannau ymchwil teithio (er enghraifft TripAdvisor)<br>• gwefan y sefydliad ei hun<br>• arolygon boddhad cwsmeriaid.<br><br>Lle bo'n berthnasol, gall hyn gynnwys ystyried yr adborth ar wasanaeth i gwsmeriaid a'r mesurau ansawdd a ddefnyddir gan sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru, fel gwobrau twristiaeth rhanbarthol, llwyfannau marchnata cyrchfannau, neu adborth gan ymwelwyr a gesglir gan atyniadau a gwasanaethau yng Nghymru. |

**Ystod**

**1.1** Gall **sefydliadau** gynnwys:

- un sefydliad mawr – dyma enghreifftiau:
  - TUI (Thomson gynt)
  - Hilton
  - McDonald's
  - British Airways
  - Travelodge
  - Premier Inn
- un busnes bach neu ganolig lleol.

Lle bo'n briodol, gellir cynnwys busnesau bach a chanolig sy'n gweithredu yng Nghymru – dyma enghreifftiau:

- darparwyr llety dan berchnogaeth leol
- gwasanaethau ymwelwyr
- busnesau lletygarwch.

Gall hyn hefyd gynnwys cyfeiriad at gyrff sector sy'n gweithredu yng Nghymru megis Croeso Cymru neu Gymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru.

**1.1** Rhaid i **gwsmeriaid** gynnwys:

- unigolion
- grwpiau
- pobl ag anghenion penodol
- teuluoedd
- cwsmeriaid busnes.

**1.2** Gall **cyfleusterau a gwasanaethau** gynnwys:

- darparwyr llety – dyma enghreifftiau:
  - pentrefi gwyliau

DRAFFT

**Ystod**

  - gwestai
  - llety gwely a brecwast
  - meysydd gwersylla
- atyniadau i ymwelwyr
- asiantaethau teithio
- canolfannau gwybodaeth i ymwelwyr
- gwasanaethau tywys teithiau
- gweithredwyr trafnidiaeth
- gwasanaethau trafnidiaeth neu sefydliadau cyrchfan sy'n gweithredu yng Nghymru – dyma enghreifftiau:
  - gwledig
  - arfordirol
  - lleoliadau sy'n seiliedig ar dreftadaeth
- cynlluniau sicrhau ansawdd fel Cynllun Sicrhau Ansawdd Croeso Cymru.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:

- pwysigrwydd gwasanaeth i gwsmeriaid i sefydliadau teithio a thwristiaeth, a'u cwsmeriaid
- disgrifio gwasanaeth da i gwsmeriaid, gan gynnwys:
  - agwedd groesawgar
  - sgiliau gwrando da
  - bod yn gwrtais ac yn effeithlon
- sut mae anghenion cwsmeriaid yn cael eu diwallu ar draws o leiaf ddau fath gwahanol o gyfleusterau a gwasanaethau
- sut caiff gwasanaeth i gwsmeriaid ei fesur a pham mae hyn yn bwysig
- cymharu polisïau gwasanaeth i gwsmeriaid o ddau sefydliad o leiaf:
  - un sefydliad mawr ac un busnes bach a chanolig lleol, gan gynnwys:
    - polisïau gwasanaeth i gwsmeriaid
    - trefniadau cwyno
    - recriwtio neu hyfforddi staff.

**Mathau o dystiolaeth**:

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• astudiaethau achos<br>• tystiolaeth gan dyst<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• datganiadau ysgrifenedig<br>• blogiau<br>• llyfrau gwaith/dyddlyfrau. |

| Ystod |
| --- |
| **2.1** Rhaid i **sefyllfaoedd** gynnwys:<br><br>• wyneb yn wyneb<br>• dros y ffôn<br>• drwy'r cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Lle bo'n briodol, gall dysgwyr hefyd ddangos ymwybyddiaeth o'r defnydd o'r Gymraeg mewn rhyngweithiadau gwasanaeth i gwsmeriaid.<br><br>**2.1** Gall **sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid** gynnwys:<br><br>• gwrando'n astud<br>• agwedd groesawgar<br>• talu sylw<br>• gwybodaeth am y cynnyrch neu'r gwasanaeth<br>• defnyddio iaith gadarnhaol<br>• iaith corff agored a chadarnhaol.<br>**2.2** Gall **sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth heriol** gynnwys:<br><br>• cwsmeriaid dig |

| Ystod |
|---|
| • cwsmeriaid ypset<br>• cwsmeriaid rhwystredig<br>• cwsmeriaid sydd wedi'u hanafu.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• dangos sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid mewn o leiaf ddwy sefyllfa wahanol gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod<br>• dangos sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid wrth ddelio ag o leiaf un sefyllfa heriol, gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod<br>• cynhyrchu dogfennau ysgrifenedig i gefnogi gwasanaeth i gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth, gan ddangos ystyriaeth o'r canlynol:<br>  ○ dull<br>  ○ cynnwys<br>  ○ tôn<br>  ○ cywirdeb<br>  ○ eglurder.<br><br>Gall dysgwyr weithio mewn grŵp. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu tystiolaeth ysgrifenedig unigol, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• tystiolaeth gan dyst<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• llythyr/e-bost/cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• prawf holi ac ateb<br>• adborth gan yr asesydd/cymheiriaid. |

DRAFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
|---|
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 02 Diwydiant teithio a thwristiaeth y DU (TTW-02-02)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o strwythur diwydiant teithio a thwristiaeth y DU yn ogystal â'r gwahanol fathau o sefydliadau. Bydd y dysgwr yn deall y ffactorau wrth ddatblygu diwydiant teithio a thwristiaeth y DU a chyfleoedd swyddi perthnasol yn y sector. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Gorfodol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall strwythur diwydiant teithio a thwristiaeth y DU | 1.1 Disgrifio **strwythur** diwydiant teithio a thwristiaeth y DU | Cefnogi o leiaf dri phwynt am strwythur diwydiant teithio a thwristiaeth y DU gydag enghreifftiau neu esboniadau | Cefnogi o leiaf bedwar pwynt am strwythur diwydiant teithio a thwristiaeth y DU, gydag enghreifftiau neu esboniadau | Cefnogi sawl pwynt am strwythur diwydiant teithio a thwristiaeth y DU gydag enghreifftiau neu esboniadau sydd wedi'u hystyried yn ofalus |
| | 1.2 Disgrifio gwahanol **fathau o sefydliadau**<br>1.3 Disgrifio'r **sefydliadau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol** yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU | Defnyddio gwybodaeth am y mathau o sefydliadau, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am y mathau o sefydliadau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun. Dylid dod o hyd i'r wybodaeth mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf | Defnyddio gwybodaeth am fathau o sefydliadau, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |
| 2. Deall y ffactorau yn natblygiad diwydiant teithio a thwristiaeth y DU | 2.1 Disgrifio'r **ffactorau** yn natblygiad diwydiant teithio a thwristiaeth y DU | Cefnogi o leiaf ddau bwynt am ddatblygiad diwydiant teithio a thwristiaeth y DU, gydag | Cefnogi o leiaf dri phwynt am ddatblygiad diwydiant teithio a thwristiaeth y DU gydag | Cefnogi sawl pwynt am ddatblygiad diwydiant teithio a thwristiaeth y DU gydag enghreifftiau |

DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | | enghreifftiau neu esboniadau. Defnyddio gwybodaeth am ddatblygiad diwydiant teithio a thwristiaeth y DU, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | enghreifftiau neu esboniadau. Defnyddio gwybodaeth am ddatblygiad diwydiant teithio a thwristiaeth y DU, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | neu esboniadau sydd wedi'u hystyried yn ofalus. Defnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |
| 3. Deall cyfleoedd gwaith yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU | 3.1 Disgrifio cyfleoedd swyddi perthnasol yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU<br>3.2 Disgrifio'r gofynion ar gyfer gwahanol swyddi yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU | Defnyddio gwybodaeth am gyfleoedd gwaith a dwy swydd wahanol yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun ar ffurf llyfryn gyrfaoedd neu rywbeth tebyg | Defnyddio gwybodaeth am gyfleoedd gwaith a dwy swydd wahanol yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU, a geir mewn gwahanol fformatau o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun ar ffurf llyfryn gyrfaoedd neu rywbeth tebyg | Defnyddio gwybodaeth am gyfleoedd gwaith a dwy swydd wahanol yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU, a geir mewn gwahanol fformatau o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun ar ffurf llyfryn gyrfaoedd neu debyg |

**Ystod**

**1.1** Rhaid i **strwythur** gynnwys:

- trafnidiaeth (ffordd, rheilffordd, awyr a môr)
- llety (wedi'i wasanaethu a heb ei wasanaethu)

DRAFT

| Ystod |
|---|
| • gweithrediadau teithiau<br>• asiantaethau teithio<br>• atyniadau i ymwelwyr<br>• gwasanaethau tywys a gwybodaeth<br>• gwasanaethau ategol<br>• cyrff llywodraethu – dyma enghreifftiau:<br>  ○ yr Adran Drafnidiaeth<br>  ○ y Swyddfa Gartref.<br><br>**1.2** Gall y **mathau o sefydliadau** gynnwys:<br><br>• sefydliadau lleol a rhanbarthol – dyma enghreifftiau:<br>  ○ sefydliadau rheoli cyrchfannau (DMOs)<br>  ○ partneriaethau lleol â'r economi ymwelwyr (LVEPs)<br>• darparwyr twristiaeth busnes a digwyddiadau – dyma enghreifftiau:<br>  ○ canolfannau cynadledda<br>  ○ lleoliadau digwyddiadau<br>• darparwyr trafnidiaeth yng Nghymru<br>• darparwyr llety yng Nghymru<br>• atyniadau i ymwelwyr yng Nghymru<br>• sefydliadau cyrchfan yng Nghymru<br>• gall sefydliadau lleol a rhanbarthol yng Nghymru gynnwys:<br>  ○ sefydliadau rheoli cyrchfannau yng Nghymru<br>  ○ partneriaethau twristiaeth rhanbarthol<br>  ○ cyrff sy'n cynrychioli'r sector ac sy'n gweithredu yng Nghymru – dyma enghreifftiau:<br>    ▪ Croeso Cymru<br>    ▪ Cynghrair Twristiaeth Cymru<br>    ▪ Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru.<br><br>**1.3** Rhaid i **sefydliadau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol** gynnwys:<br><br>• sector preifat – dyma enghreifftiau: |



DRAFFT

**Ystod**

  - masnachol
  - cwmnïau teithio
- sector cyhoeddus – dyma enghreifftiau:
  - Croeso Cymru
- sector gwirfoddol – dyma enghreifftiau:
  - yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Gall dysgwyr hefyd ystyried sut mae sefydliadau'n cael eu hariannu a'u gweithredu.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:

- strwythur diwydiant teithio a thwristiaeth y DU, gan ddisgrifio o leiaf dri math o sefydliad ar draws sectorau'r diwydiant gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod
- cymharu sefydliadau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU, gan gynnwys:
  - perchnogaeth
  - nodau ac amcanion.

**Mathau o dystiolaeth**:

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- siart llif neu debyg
- taflenni gwaith
- adroddiadau arsylwi
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- adroddiad ysgrifenedig
- siart gylch
- taflen holi ac ateb.

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| **2.1** Rhaid i **ffactorau** gynnwys:<br><br>• rheoliadau a newidiadau cyfreithiol<br>• newidiadau cymdeithasol<br>• newidiadau economaidd<br>• arloesi technolegol<br>• datblygu cynnyrch<br>• gofynion newidiol defnyddwyr.<br><br>Lle bo'n briodol, gall dysgwyr ddefnyddio'r fframwaith gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (PESTLE) i helpu i strwythuro eu dealltwriaeth o'r ffactorau wrth ddatblygu diwydiant teithio a thwristiaeth y DU.<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau perthnasol wrth ymchwilio i'r ffactorau hyn – dyma enghreifftiau:<br><br>• adroddiadau diwydiant<br>• gwefannau sefydliadau twristiaeth<br>• cyhoeddiadau llywodraeth – dyma enghreifftiau:<br>    o Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr a Lefi) (Cymru) 2025<br>• erthyglau newyddion<br>• astudiaethau achos.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• pob un o'r ffactorau wrth ddatblygu diwydiant teithio a thwristiaeth y DU, gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod.<br><br>Lle bo'n briodol, gall dysgwyr nodi'r ffynonellau a ddefnyddir yn eu gwaith.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth: |

DRAFT

| Ystod |
|---|
| • cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• astudiaeth achos<br>• llyfryddiaeth<br>• llyfr gwaith/taflenni gwaith. |

| Ystod |
|---|
| **3.1 Swyddi** – gall sectorau gynnwys:<br><br>• gweithrediadau teithiau<br>• lletygarwch<br>• asiantaethau teithio<br>• atyniadau i ymwelwyr<br>• trafnidiaeth.<br><br>Lle bo'n briodol, gall swyddi ac enghreifftiau fod yn gyflogwyr sy'n gweithredu yng Nghymru. Gall hyn hefyd gynnwys ystyried swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol neu'n ofynnol.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• o leiaf dwy swydd wahanol o wahanol sectorau yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU, gan gynnwys ar gyfer pob swydd:<br>  ○ cymwysterau<br>  ○ sgiliau a phrofiad<br>  ○ rhinweddau ac agweddau personol.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth: |

DRAFT

| **Ystod** |
|---|
| • taflen gyrfaoedd<br>• tudalen we<br>• hysbyseb<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig. |

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
|---|
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae’r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw’r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu’n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni’r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â’ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFT

# Uned 03 Cyrchfannau teithio a thwristiaeth (TTW-02-03)

| **Crynodeb o'r uned** | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth dysgwyr am leoliad prif nodweddion daearyddol a chyrchfannau poblogaidd ledled y byd ar gyfer twristiaid sy'n teithio o'r DU. Bydd y dysgwr yn deall y ffactorau sy'n denu twristiaid i gyrchfannau. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall cyrchfannau teithio a thwristiaeth yn y DU ac ar draws y byd | 1.1 Disgrifio lleoliad prif **nodweddion daearyddol** y byd<br>1.2 Disgrifio **cyrchfannau tramor** poblogaidd ar gyfer twristiaid sy'n teithio o'r DU | Defnyddio gwybodaeth am leoliadau a chyrchfannau, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am leoliadau a chyrchfannau, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am leoliadau a chyrchfannau, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |
| 2. Deall beth sy'n denu twristiaid i gyrchfannau | 2.1 Esbonio **ffactorau** sy'n denu twristiaid i gyrchfannau | Disgrifio damcaniaethau a chysyniadau perthnasol am y ffactorau sy'n denu twristiaid i gyrchfannau. Cefnogi o leiaf ddau bwynt am atyniadau i dwristiaid gydag enghreifftiau neu esboniadau | Disgrifio damcaniaethau a chysyniadau perthnasol am ffactorau sy'n denu twristiaid i gyrchfannau a gwneud rhai cysylltiadau rhyngddynt. Cefnogi o leiaf ddau bwynt am atyniadau i dwristiaid gydag enghreifftiau neu esboniadau | Disgrifio damcaniaethau a chysyniadau am ffactorau sy'n denu twristiaid i gyrchfannau ac egluro sut maent yn gysylltiedig. Cefnogi nifer o bwyntiau am atyniadau i dwristiaid gydag enghreifftiau ac esboniadau sydd wedi'u cynllunio'n dda |

DRAFT

**Ystod**

**1.1** Gall **nodweddion daearyddol** gynnwys:

- cyfandiroedd
- cefnforoedd
- moroedd
- mynyddoedd
- hemisfferau
- lledredau allweddol
- anialdiroedd.

Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi gweithgareddau mapio mewn cyd-destun drwy gynnwys lleoliad Cymru yn y DU a'i pherthynas â nodweddion daearyddol ehangach yn Ewrop ac yn fyd-eang.

**1.2 Cyrchfannau tramor –** gall y mathau o gyrchfannau gynnwys:

- trefi glan môr
- cefn gwlad
- arfordir/ynys
- mynydd/llyn
- sgïo
- gwyliau glan môr
- saffari
- antur
- diwylliant/gweld pethau.
- prifddinasoedd
- prif drefi a dinasoedd.

At ddibenion cyd-destun, gall canolfannau gyfeirio at Gymru wrth drafod cyrchfannau yn y DU, er enghraifft, fel cyferbyniad enghreifftiol â lleoliadau pellter byr neu hir dramor.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:

DRAFFT

**Ystod**

- lleoliad prif nodweddion daearyddol y byd, wedi'u cyflwyno fel cyfres o fapiau
- un cyrchfan agos ac un cyrchfan pell dramor ar gyfer twristiaid sy'n teithio o'r DU.

Sylwer: mae teithiau pellter byr yn cael eu hystyried yn chwe awr neu lai; mae teithiau pellter hir dros chwe awr.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- taflenni gwaith
- pamffledi
- tudalen we
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiad ysgrifenedig.

**Ystod**

**2.1** Rhaid i **ffactorau** gynnwys:

- atyniadau ymwelwyr – dyma enghreifftiau:
  - parciau thema
  - amgueddfeydd
  - safleoedd treftadaeth a hanesyddol
  - parciau bywyd gwyllt
- nodweddion naturiol – dyma enghreifftiau:
  - mynyddoedd
  - traethau
  - llynnoedd
  - afonydd
  - ardaloedd arfordirol
- cyfleusterau – dyma enghreifftiau:
  - chwaraeon a hamdden

DRAFFT

**Ystod**

- siopa
- celfyddydau ac adloniant – dyma enghreifftiau:
  - theatrau
  - orielau celf
  - arddangosfeydd
  - gwyliau a digwyddiadau
- cysylltiadau trafnidiaeth – dyma enghreifftiau:
  - rheilffordd
  - ffordd
  - aer
  - cysylltiadau môr
- hinsawdd a thywydd
- hygyrchedd a chost teithio
- diogelwch a sefydlogrwydd gwleidyddol
- ansawdd cyfleusterau – dyma enghreifftiau:
  - glanweithdra
- gwahanol fathau o ymwelwyr – dyma enghreifftiau:
  - teuluoedd
  - cyplau
  - grwpiau
  - pobl sydd wedi ymddeol
  - tripiau ysgol.

Lle bo’n briodol, efallai y bydd y gyrchfan a ddewisir yn y DU wedi’i lleoli yng Nghymru, gan alluogi dysgwyr i archwilio atyniadau, cyfleusterau a mathau o ymwelwyr mewn cyd-destun Cymreig.

Gall canolfannau gyflwyno fframweithiau damcaniaethol hygyrch, wedi’u haddasu’n briodol ar gyfer dysgwyr lefel 2, i gefnogi dealltwriaeth dysgwyr o pam mae cyrchfannau’n denu twristiaid. Gellir defnyddio cyflwyniadau syml i’r cysyniadau hyn – dyma enghreifftiau:

- Cylch Bywyd Ardal Twristiaeth Butler (1980)
- Damcaniaeth Seicograffig Plog (1974).

DRAFFT

## Ystod

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i’r canlynol:

- o leiaf dair cyrchfan (un yn y DU, un pellter byr ac un pellter hir) ar gyfer pob ffactor, gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod.

**Rhaid** i ddysgwyr lunio taflen ffeithiau. Gall y daflen ffeithiau nodi amrywiaeth o dwristiaid a rhoi enghreifftiau o gyrchfannau a allai apelio.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio’r math neu’r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- taflenni gwaith
- mapiau
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- tudalen we
- adroddiad ysgrifenedig
- taflen holi ac ateb.

## Canllawiau cyflawni ac asesu

Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae’r termau hyn yn berthnasol.

Dim ond arweiniad yw’r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu’n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.

Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni’r gofyniad hwn.



DRAFFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 04 Hyrwyddo yn y diwydiant teithio a thwristiaeth (TTW-02-04)

<table>
<tr><th colspan="4">Crynodeb o'r uned</th></tr>
<tr><td colspan="4">Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r gwahanol weithgareddau hyrwyddo sy'n cael eu defnyddio gan sefydliadau teithio a thwristiaeth, ac archwilio pwysigrwydd ac effeithiolrwydd hyrwyddo. Bydd y dysgwr yn creu deunyddiau hyrwyddo gwahanol ac yn adolygu'r deunydd mae wedi'i gynhyrchu.</td></tr>
<tr><th colspan="4">Asesiad</th></tr>
<tr><td colspan="4">Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol</td></tr>
<tr><td>Dewisol</td><td>Graddau P/T/Rh</td><td>Lefel 2</td><td>60 ODDA</td></tr>
</table>

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall ffactorau sy'n dylanwadu ar weithgarwch hyrwyddo yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 1.1 Esbonio'r gwahanol **weithgareddau hyrwyddo** a ddefnyddir gan sefydliadau teithio a thwristiaeth | Dod i gasgliadau cywir am bwysigrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau hyrwyddo ar sail rhywfaint o wybodaeth | Dod i gasgliadau cywir am bwysigrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau hyrwyddo ar sail yr holl wybodaeth | Dod i gasgliadau cywir am bwysigrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau hyrwyddo, gan asesu'r holl wybodaeth |
| | 1.2 Esbonio pwysigrwydd gwasanaeth i gwsmeriaid i sefydliadau teithio a thwristiaeth a'u cwsmeriaid | | | |
| | 1.3 Esbonio **effeithiolrwydd** gwahanol weithgareddau hyrwyddo a ddefnyddir gan sefydliadau teithio a thwristiaeth | | | |



DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 2. Deall sut mae creu deunyddiau hyrwyddo ar gyfer y diwydiant teithio a thwristiaeth | 2.1 Esbonio sut y cynhyrchir gwahanol fathau o ddeunyddiau hyrwyddo ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth teithio a thwristiaeth | Cwblhau a chyflwyno gwahanol fathau o ddeunyddiau hyrwyddo ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth teithio a thwristiaeth gan ddilyn briff penodol gydag elfen o gywirdeb. Dewis a defnyddio sgiliau, prosesau a deunyddiau technegol priodol | Cwblhau a chyflwyno gwahanol fathau o ddeunyddiau hyrwyddo ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth teithio a thwristiaeth, gan ddilyn briff penodol yn gywir. Dewis a defnyddio'r sgiliau, y prosesau a'r deunyddiau technegol priodol gydag esboniad o'i ddewis | Cwblhau a chyflwyno gwahanol fathau o ddeunyddiau hyrwyddo ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth teithio a thwristiaeth, gan fodloni holl ofynion briff penodol. Dewis a defnyddio'r sgiliau, y prosesau a'r deunyddiau technegol priodol gydag esboniad o'i ddewis |
| 3. Deall sut mae adolygu deunyddiau hyrwyddo a gynhyrchir | 3.1 Disgrifio ymddangosiad ac effeithiolrwydd y deunydd hyrwyddo a gynhyrchir<br>3.2 Egluro apêl ac addasrwydd y deunydd hyrwyddo a gynhyrchir<br>3.3 Disgrifio'r gynulleidfa darged a'r maes i'w wella | Nodi amrywiaeth o gryfderau a gwendidau gydag edrychiad ac effeithiolrwydd y deunydd hyrwyddo, gyda thystiolaeth i gefnogi hyn | Nodi amrywiaeth o gryfderau a gwendidau gydag edrychiad ac effeithiolrwydd y deunydd hyrwyddo, gyda thystiolaeth i gefnogi hyn, a disgrifio'r effaith ar y canlyniad cyffredinol | Disgrifio amrywiaeth o gryfderau a gwendidau gydag edrychiad ac effeithiolrwydd y deunydd hyrwyddo gyda thystiolaeth i gefnogi hyn, gan ddangos tystiolaeth o gydnabod gwahanol lefelau o bwysigrwydd |

| **Ystod** |
|---|
| **1.1** Gall **gweithgareddau hyrwyddo** gynnwys:<br><br>• hysbysebion<br>• pamffledi<br>• gwefannau<br>• taflenni |

DRAFT

| Ystod |
|---|
| • <br>• hysbysebion teledu<br>• hysbysebion radio<br>• cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi enghreifftiau mewn cyd-destun gan ddefnyddio gweithgareddau hyrwyddo gan sefydliadau teithio a thwristiaeth sy'n gweithredu yng Nghymru – dyma enghreifftiau:<br><br>• ymgyrchoedd cyrchfan<br>• marchnata atyniad<br>• hyrwyddo llety.<br><br>Er mwyn rhoi cyd-destun, gall hyn gynnwys ystyried sut mae gweithgareddau hyrwyddo'n cael eu teilwra i wahanol farchnadoedd ymwelwyr sy'n berthnasol i Gymru – dyma enghreifftiau:<br><br>• ymwelwyr domestig<br>• ymwelwyr cyfnod byr<br>• ymwelwyr tymhorol.<br><br>**1.3** Gall **effeithiolrwydd** gynnwys:<br><br>• cyrhaeddiad cynulleidfa<br>• dangosyddion ymgysylltu<br>• adborth ansoddol<br>• data gwerthiant (lle bo ar gael).<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• disgrifiad o'r gwahanol weithgareddau hyrwyddo a ddefnyddir gan sefydliadau teithio a thwristiaeth, gydag enghreifftiau<br>• pwysigrwydd hyrwyddo i sefydliadau teithio a thwristiaeth, gan gynnwys amcanion gweithgareddau hyrwyddo a all gynnwys:<br>    o codi ymwybyddiaeth |

| Ystod |
| --- |
| ○ cynyddu cyfran marchnad<br>○ hysbysebu cynnyrch newydd<br>• enghreifftiau o weithgareddau hyrwyddo, gan nodi'r cwsmer targed a rhoi sylwadau ar eu heffeithiolrwydd.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• taflenni gwaith<br>• cofnodion cyfarfodydd<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• taflen holi ac ateb. |

| Ystod |
| --- |
| **2.1**<br><br>Lle bo'n briodol, gall un neu fwy o'r sefydliadau neu'r gwasanaethau a ddewisir fod wedi'u lleoli yng Nghymru, gan alluogi dysgwyr i gymhwyso technegau hyrwyddo i gyd-destunau teithio a thwristiaeth sy'n berthnasol yn lleol.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• cynhyrchu o leiaf ddau wahanol fath o ddeunydd hyrwyddo ar gyfer dau wahanol fath o sefydliad neu wasanaeth teithio a thwristiaeth<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth.<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio offer digidol am ddim i helpu i ddrafftio – dyma enghreifftiau: |

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| • Cysill Ar-lein (ar gyfer drafftiau Cymraeg lle bo hynny'n briodol).<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• taflenni gwaith<br>• cofnodion cyfarfodydd<br>• tystiolaeth gan dyst<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• taflen holi ac ateb<br>• dyddlyfr neu flog myfyriol<br>• log gwaith strwythuredig. |

| Ystod |
| --- |
| **3.1, 3.2, 3.3**<br><br>Lle bo'n briodol, gall dysgwyr ystyried sut mae'r deunydd hyrwyddo yn adlewyrchu'r diwydiant teithio a thwristiaeth yng Nghymru – dyma enghreifftiau:<br><br>• pa mor addas yw'r delweddau<br>• negeseuon<br>• cyfeiriadau cyrchfan.<br><br>Lle bo'n briodol, gall adborth ystyried effeithiolrwydd y deunydd hyrwyddo o ran cynrychioli cyrchfannau neu wasanaethau yng Nghymru.<br><br>**Gofyniad asesu:** |

DRAFT

## Ystod

**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:

- adolygu eu deunydd hyrwyddo, gan gynnwys:
    - cyfiawnhad dros y dewisiadau a wnaed
    - effaith bosibl
    - amser a gymerwyd
    - deunyddiau a ddefnyddiwyd
    - sut roedd yn diwallu anghenion cwsmeriaid
    - adborth gan yr asesydd a chymheiriaid
    - beth sydd wedi gweithio'n dda a beth sydd ddim wedi gweithio cystal
    - meysydd i'w gwella.
- disgrifiad o'r gynulleidfa darged a meysydd i'w gwella
- apêl ac addasrwydd y deunydd hyrwyddo a gynhyrchir.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- taflenni gwaith
- cofnodion cyfarfodydd
- tystiolaeth gan dyst
- taflenni adborth
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- adroddiad ysgrifenedig
- taflen holi ac ateb.

## Canllawiau cyflawni ac asesu

Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.

DRAFFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 05 Atyniadau pwrpasol i ymwelwyr yn y DU (TTW-02-05)

| **Crynodeb o'r uned** | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o'r gwahanol fathau o atyniadau pwrpasol i ymwelwyr. Bydd y dysgwr yn dylunio atyniad pwrpasol i ymwelwyr ac yn llunio adolygiad o'i ddyluniad. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall atyniadau pwrpasol i ymwelwyr yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 1.1 Disgrifio gwahanol fathau o **atyniadau pwrpasol i ymwelwyr** | Defnyddio gwybodaeth am atyniadau pwrpasol i ymwelwyr, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun ar ffurf adroddiad | Defnyddio gwybodaeth am atyniadau pwrpasol i ymwelwyr, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf adroddiad | Defnyddio gwybodaeth am atyniadau i ymwelwyr, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf adroddiad |
| 2. Gallu dylunio atyniad pwrpasol i ymwelwyr | 2.1 Dangos sut mae llunio **cynnig** ar gyfer atyniad pwrpasol i ymwelwyr | Cwblhau a chyflwyno cynnig ar gyfer atyniad pwrpasol i ymwelwyr, gan ddilyn briff penodol gydag elfen o gywirdeb | Cwblhau a chyflwyno cynnig ar gyfer atyniad pwrpasol i ymwelwyr, sy'n gywir i rannau helaeth gan ddilyn briff penodol | Cwblhau a chyflwyno cynnig ar gyfer atyniad pwrpasol i ymwelwyr, gan fodloni holl ofynion y briff penodol yn gywir |
| 3. Gallu adolygu dyluniad atyniad pwrpasol i ymwelwyr | 3.1 Dangos sut mae **adolygu** atyniad pwrpasol i ymwelwyr | Nodi amrywiaeth o gryfderau a gwendidau gyda thystiolaeth ategol | Nodi amrywiaeth o gryfderau a gwendidau gyda thystiolaeth ategol, a disgrifio'r effaith ar y canlyniad cyffredinol | Disgrifio amrywiaeth o gryfderau a gwendidau gyda thystiolaeth ategol, gan ddangos tystiolaeth o gydnabod gwahanol lefelau o bwysigrwydd |

DRAFT

| Ystod |
|---|
| **1.1** Gall **atyniadau pwrpasol i ymwelwyr** gynnwys:<br><br>• yr O2<br>• Prosiect Eden<br>• Centre Parcs<br>• parciau a gwersylloedd gwyliau<br>• orielau celf<br>• amgueddfeydd<br>• parciau thema<br>• Zip World<br>• Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin<br>• Stadiwm Principality.<br><br>Lle bo’n berthnasol, gall yr atyniad a ddewiswyd fod wedi’i leoli yng Nghymru. Os oes ymweliad wedi digwydd, dylid cynnwys ffotograffau a chofnodion eraill o’r ymweliad yn y portffolio.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i’r canlynol:<br><br>• nifer o atyniadau pwrpasol i ymwelwyr yn y DU<br>• adroddiad manwl ar un atyniad a ddewiswyd, gan gynnwys:<br>  ○ lleoliad a mynediad<br>  ○ apêl<br>  ○ cyfleusterau a gwasanaethau i gwsmeriaid<br>  ○ y farchnad darged – dyma enghreifftiau:<br>    ▪ pobl ag anghenion penodol<br>    ▪ cyplau<br>    ▪ pobl sengl<br>    ▪ teuluoedd<br>    ▪ grwpiau<br>  ○ hanes<br>  ○ datblygiadau posibl yn y dyfodol. |

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| **Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• ffotograffau o ymweliad<br>• ymweld â memorabilia<br>• adroddiad arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• taflen holi ac ateb. |

| Ystod |
|---|
| **2.1** Rhaid i **gynnig** gynnwys:<br><br>• lleoliad a mynediad<br>• apêl<br>• cyfleusterau a gwasanaethau i gwsmeriaid<br>• y farchnad darged – dyma enghreifftiau:<br>    ○ pobl ag anghenion penodol<br>    ○ cyplau<br>    ○ pobl sengl<br>    ○ teuluoedd<br>    ○ grwpiau<br>• hanes a datblygiadau posibl yn y dyfodol<br>• cyllideb bosibl<br>• y cynllun.<br><br>At ddibenion cyd-destun, gall cynigion fod mewn lleoliad yng Nghymru lle bo hynny'n briodol, gan alluogi ystyried proffiliau ac amgylcheddau ymwelwyr lleol.<br><br>Gall dysgwyr gyflwyno eu cynnig i gynulleidfa fach – dyma enghreifftiau: |

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| • cyfarfod<br>• lleoliad ar ffurf cynhadledd.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• llunio cynnig ar gyfer atyniad pwrpasol i ymwelwyr yn y DU, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• dogfen y cynnig<br>• cynlluniau neu frasluniau<br>• adroddiad arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• taflen holi ac ateb. |

| Ystod |
|---|
| **3.1** Rhaid i **adolygiad** gynnwys:<br><br>• hunanwerthusiad o sut cafodd y cynnig ei ddatblygu<br>• argymhellion ar gyfer gwella<br>• adborth gan gyfoedion, aseswyr neu gynulleidfa<br>• hyfywedd y dyluniad<br>• beth sydd wedi gweithio'n dda a beth sydd ddim wedi gweithio cystal.<br><br>Gall canolfannau annog dysgwyr i werthuso effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol posibl eu dyluniad arfaethedig i gefnogi sgiliau meddwl yn feirniadol a pharatoi ar gyfer astudiaeth lefel 3. |



DRAFFT

## Ystod

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- llunio adolygiad o'u cynnig gan gynnwys y rhestr yn yr ystod.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- tystiolaeth gan dyst
- adolygiad ysgrifenedig
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- taflenni adborth gan aseswyr/cymheiriaid/cynulleidfaoedd

## Canllawiau cyflawni ac asesu

Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.

Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.

Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.

Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol.

DRAFFT

DRAFFT

# Uned 06 Deall gwyliau pecyn (TTW-02-06)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o ran beth yw gwyliau pecyn a sut maent yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion gwahanol farchnadoedd. Bydd y dysgwr yn ymchwilio i sut mae gweithredwyr teithiau yn gwerthu gwyliau pecyn a sut maent yn cael eu hyrwyddo, a dangos eu bod yn argymell gwyliau pecyn addas i gwsmer. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall sut mae gwyliau pecyn yn cael eu datblygu a'u gwerthu | 1.1 Disgrifio beth sy'n gwneud **gwyliau pecyn** | Defnyddio rhai termau technegol am wyliau pecyn yn gywir | Defnyddio amrywiaeth o dermau technegol am wyliau pecyn yn gywir | Defnyddio amrywiaeth eang o dermau technegol am wyliau pecyn yn gyson ac yn gywir |
| | 1.2 Disgrifio sut mae gwyliau pecyn yn cael eu **datblygu i ddiwallu anghenion gwahanol farchnadoedd targed** | Defnyddio gwybodaeth am wyliau pecyn, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun ar ffurf adroddiad | Defnyddio gwybodaeth am wyliau pecyn, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf adroddiad | Defnyddio gwybodaeth am wyliau pecyn, a geir mewn fformatau gwahanol o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf adroddiad |
| | 1.3 Disgrifio **sut mae gweithredwyr teithiau'n gwerthu gwyliau pecyn** | | | |
| | 1.4 Disgrifio sut mae **gweithredwyr teithiau'n hyrwyddo** gwyliau pecyn ar gyfer | | | |

DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | gwahanol farchnadoedd targed | | | |
| 2. Gallu argymell gwyliau pecyn addas i gwsmer | 2.1 Dangos sut mae argymell gwyliau pecyn addas i gwsmer | Cwblhau cynnig ar gyfer gwyliau pecyn, gan ddilyn briff penodol gydag elfen o gywirdeb | Cwblhau cynnig ar gyfer gwyliau pecyn yn gywir gan ddilyn briff penodol | Cwblhau cynnig ar gyfer gwyliau pecyn, gan fodloni holl ofynion y briff penodol yn gywir |
| | 2.2 Dangos y **rhesymau dros yr argymhelliad** i gwsmer | Ymchwilio gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol o un math o ffynhonnell i lywio camau gweithredu | Ymchwilio gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol o fwy nag un math o ffynhonnell ac mewn fformatau gwahanol, i lywio camau gweithredu | Ymchwilio gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau a fformatau i lywio camau gweithredu |
| 3. Deall y newidiadau i'r farchnad gwyliau pecyn | 3.1 Esbonio'r gostyngiad ym mhoblogrwydd y farchnad gwyliau pecyn | Dod i gasgliadau cywir am newidiadau yn y farchnad gwyliau pecyn ar sail rhywfaint o wybodaeth | Dod i gasgliadau cywir am newidiadau yn y farchnad gwyliau pecyn yn seiliedig ar amrywiaeth o wybodaeth | Dod i gasgliadau cywir am newidiadau yn y farchnad gwyliau pecyn, gan asesu'r holl wybodaeth |
| | 3.2 Esbonio'r **marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg**<br>3.3 Egluro'r effaith ar gwsmeriaid | Defnyddio gwybodaeth am newidiadau i'r farchnad gwyliau pecyn, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am newidiadau i'r farchnad gwyliau pecyn, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am newidiadau i'r farchnad gwyliau pecyn, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |

| **Ystod** |
|---|
| **1.1** Rhaid i elfennau **gwyliau pecyn** gynnwys:<br><br>• trafnidiaeth |

DRAFT

**Ystod**

- llety.

Dyma wasanaethau ychwanegol posibl:

- trosglwyddo
- prydau
- lwfans bagiau
- Trwydded Trefnwyr Teithio Awyrennau (ATOL) neu warchodaeth ariannol
- cynrychiolwyr cyrchfannau
- gwibdeithiau neu weithgareddau
- dogfennau teithio
- ychwanegion dewisol – dyma enghreifftiau:
  - llogi car
  - parcio yn y maes awyrennau
  - lwfansau offer chwaraeon.

Gellir hefyd ystyried anghenion mynediad cwsmeriaid – dyma enghreifftiau:

- anableddau
- gofynion symudedd.

Lle bo'n briodol, gall enghreifftiau a ddefnyddir i ddangos elfennau gwyliau pecyn adlewyrchu patrymau teithio a phwyntiau gadael sy'n berthnasol i gwsmeriaid yng Nghymru, fel asiantaethau teithio rhanbarthol neu gysylltiadau trafnidiaeth a ddefnyddir gan gwsmeriaid yng Nghymru.

**1.2** Rhaid i'r canlynol gael eu **datblygu i ddiwallu anghenion gwahanol farchnadoedd targed**:

- ymchwil i'r farchnad a datblygu cynnyrch
- cyflenwyr a gontractiwyd
- strategaethau costau a phrisiau
- marchnata, brandio a dosbarthu.

**1.3** Mae'n rhaid i'r **ffordd mae gweithredwyr teithiau yn gwerthu gwyliau pecyn** gynnwys y canlynol:

DRAFT

| Ystod |
| --- |
| • asiantaethau teithio<br>• cyfryngau cymdeithasol<br>• gwefannau<br>• gwerthu dros y ffôn<br>• asiantaethau teithio ar-lein<br>• rhwydweithiau dosbarthu partneriaid.<br><br>At ddibenion cyd-destun, gall hyn gynnwys ystyried sut mae gweithredwyr y farchnad yn marchnata ac yn gwerthu gwyliau pecyn i gwsmeriaid yng Nghymru – dyma enghreifftiau:<br><br>• asiantaethau teithio lleol<br>• marchnata digidol wedi'i dargedu'n rhanbarthol.<br><br>**1.4** Rhaid i'r hyn sy'n cael ei **hyrwyddo gan weithredwyr teithiau** gynnwys:<br><br>• lluniau<br>• pa mor hawdd yw defnyddio/llywio<br>• disgrifiad o'r cynnyrch<br>• nodweddion ychwanegol/arbennig a gynigir<br>• prisio ac atchwanegiadau.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• elfennau gwyliau pecyn gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod ac o leiaf un elfen arall<br>• sut mae gwyliau pecyn yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion gwahanol farchnadoedd targed, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod<br>• y dulliau a ddefnyddir gan weithredwyr teithiau i werthu gwyliau pecyn, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod<br>• dadansoddiad o sut mae gwyliau pecyn ar gyfer gwahanol farchnadoedd targed yn cael eu hyrwyddo gan gwmnïau teithio, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:** |

DRAFFT

**Ystod**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- adroddiad ysgrifenedig
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol.

**Ystod**

**2.2** Dyma **resymau posibl dros yr argymhelliad**:

- y gyllideb sydd ar gael
- cyfyngiadau pellter
- dewisiadau
- dibynyddion

Lle bo'n briodol, gellir lleoli'r proffil cwsmeriaid yng Nghymru i gefnogi'r gwaith o roi argymhellion ar waith yn realistig, fel dewisiadau teithio, ystyriaethau cyllidebol ac anghenion hygyrchedd.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- llunio cynnig gwyliau pecyn addas ar gyfer math penodol o gwsmer, yn seiliedig ar astudiaeth achos neu ddisgrifiad cryno
- esbonio'r rhesymau dros ei argymhelliad i'r cwsmer a ddewiswyd.

Gall dysgwyr weithio mewn grŵp. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- dogfen y cynnig



DRAFT

| Ystod |
| --- |
| • cofnodion cyfarfodydd<br>• tystiolaeth gan dyst<br>• adroddiadau arsylwi'r asesydd<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• adroddiad ysgrifenedig. |

| Ystod |
| --- |
| **3.2** Gall **marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg** gynnwys:<br><br>• pecynnu dynamig<br>• partneriaethau cwmnïau hedfan cost isel<br>• platfform archebu ar-lein<br>• gwyliau wedi'u teilwra'n arbennig.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• y dirywiad ym mhoblogrwydd gwyliau pecyn a'r rhesymau dros hynny<br>• marchnadoedd a thueddiadau newydd sydd wedi disodli neu ategu gwyliau pecyn traddodiadol<br>• effaith y newidiadau hyn ar gwsmeriaid.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• erthygl papur newydd (gall hyn gynnwys rhwng 500 a 1000 o eiriau)<br>• erthygl cylchgrawn (gall hyn gynnwys rhwng 500 a 1000 o eiriau)<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol. |

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae’r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw’r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu’n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni’r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â’ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 07 Gweithrediadau asiantaethau teithio (TTW-02-07)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r gwahanol fathau o asiantaethau teithio a'r prosesau a ddefnyddir gan asiantaeth deithio i archebu gwyliau pecyn. Bydd y dysgwr yn argymell cynnyrch gwyliau ac yn deall y rhesymau dros yr argymhelliad. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall rolau asiantau teithio | 1.1 Disgrifio gwahanol **fathau o asiantaethau teithio**<br><br>1.2 Disgrifio **rôl asiantaethau teithio** | Defnyddio gwybodaeth am asiantaethau teithio, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun ar ffurf adroddiad neu gyflwyniad | Defnyddio gwybodaeth am asiantaethau teithio, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf adroddiad neu gyflwyniad | Defnyddio gwybodaeth am asiantaethau teithio, a geir mewn gwahanol fformatau o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf adroddiad neu gyflwyniad |
| 2. Deall y broses a ddefnyddir gan asiantaeth deithio i archebu gwyliau pecyn | 2.1 Esbonio'r **prosesau** a ddefnyddir gan asiantaeth deithio i wneud archeb | Defnyddio gwybodaeth am y prosesau a ddefnyddir gan asiantaeth deithio i archebu gwyliau pecyn, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth drwy gynhyrchu siart llif | Defnyddio gwybodaeth am y prosesau a ddefnyddir gan asiantaeth deithio i archebu gwyliau pecyn, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir drwy | Defnyddio gwybodaeth am y prosesau a ddefnyddir gan asiantaeth deithio i archebu gwyliau pecyn, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir drwy gynhyrchu |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | | | gynhyrchu siart llif | siart llif |
| 3. Gallu argymell cynnyrch gwyliau mewn sefyllfa asiantaeth deithio | 3.1 Dangos sut mae argymell gwyliau pecyn addas i gwsmer | Cyflwyno argymhelliad ar gyfer cynnyrch gwyliau addas, gan ddilyn briff penodol gydag elfen o gywirdeb | Cyflwyno argymhelliad ar gyfer cynnyrch gwyliau addas yn gywir gan ddilyn briff penodol | Cyflwyno argymhelliad ar gyfer cynnyrch gwyliau addas yn gywir, gan fodloni holl ofynion y briff penodol |
| | 3.2 Dangos y **rheswm dros argymell y cynnyrch gwyliau** | Ymchwilio i gynnyrch gwyliau, gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol o un math o ffynhonnell i lywio camau gweithredu | Ymchwilio i gynnyrch gwyliau, gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol o ddwy ffynhonnell o leiaf ac mewn fformatau gwahanol i lywio camau gweithredu | Ymchwilio i gynnyrch gwyliau gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau a fformatau i lywio camau gweithredu |

**Ystod**

**1.1** Rhaid i'r **mathau o asiantaethau teithio** gynnwys:

- siop gwerthu gwyliau – gan gynnwys:
  - cadwyn (er enghraifft, TUI ( Thomson gynt))
  - asiantaethau rhanbarthol gyda dim mwy nag 20 cangen fel arfer (er enghraifft, Kyle Travel, Newell's Travel neu Travel House)
  - asiantaethau teithio annibynnol, gan gynnwys consortia
- asiant teithiau busnes
- asiant teithio canolfan alwadau
- asiant teithio ar y we
- gweithio gartref.

Gellir cynnwys asiantau teithio ar-lein hefyd – dyma enghreifftiau:

- Expedia
- On the Beach.

DRAFT

**Ystod**

Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi enghreifftiau mewn cyd-destun drwy gyfeirio at asiantaethau teithio sy'n gweithredu yng Nghymru, gan gynnwys asiantaethau annibynnol neu ranbarthol sy'n gwasanaethu cwsmeriaid yng Nghymru.

**1.2** Rhaid i **rolau asiantaethau teithio** gynnwys:

- gwerthu cynnyrch a gwasanaethau
- gwybodaeth a chyngor
- ôl-ofal.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:

- o leiaf bedwar math gwahanol o asiant teithio, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod
- rôl asiantaethau teithio, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- adroddiad ysgrifenedig.

**Ystod**

**2.1** Rhaid i **brosesau** gynnwys:

- ymholiadau cwsmeriaid
- dewis y cynnyrch cywir
- cadarnhau gyda chyflenwyr
- rheoli taliadau, anfonebau a thocynnau.

**Ystod**

Er mwyn rhoi cyd-destun, gall enghreifftiau adlewyrchu prosesau archebu fel y'u defnyddir gan asiantaethau teithio sy'n gweithredu yng Nghymru.

Efallai y bydd canolfannau'n ystyried trefnu ymweliad ag asiant teithio – wyneb yn wyneb neu ar-lein – er mwyn helpu'r dysgwyr i ddeall y broses archebu.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:

- y prosesau y mae asiantaeth deithio yn eu defnyddio i wneud archeb, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- siart llif neu ddiagram proses
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiad ysgrifenedig
- trafodaeth broffesiynol.

**Ystod**

**3.2** Dyma **resymau posibl dros argymell y cynnyrch gwyliau**:

- y gyllideb sydd ar gael
- cyfyngiadau pellter
- dewisiadau
- dibynyddion.

Gellir hefyd ystyried anghenion cwsmeriaid – dyma enghreifftiau:

- gofynion hygyrchedd



DRAFT

**Ystod**

- dewisiadau deiet
- anghenion iaith.

Lle bo’n briodol, gall y senario cwsmer a ddefnyddir fod yn seiliedig ar gwsmer yng Nghymru i gefnogi dealltwriaeth gyd-destunol o ddewisiadau ac anghenion.

Gall hyn hefyd roi cyfle i ddangos sgiliau darparu gwasanaeth i gwsmeriaid yn y Gymraeg – dyma enghreifftiau:

- paratoi amserlen ddwyieithog
- sefyllfaoedd chwarae rôl yn y Gymraeg.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- argymell cynnyrch gwyliau addas i gwsmer penodol
- esbonio’r rhesymau dros yr argymhelliad a sut mae’r rhain yn berthnasol i’r cwsmer dan sylw
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

Gall dysgwyr weithio mewn grŵp. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o’i waith, wedi’i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio’r math neu’r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- taflenni gwaith
- cofnodion cyfarfodydd
- adborth gan asesydd/cymheiriaid
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- adroddiad ysgrifenedig

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| • taflen holi ac ateb<br>• nodiadau chwarae/efelychu rôl. |

| Canllawiau cyflawni ac asesu |
| --- |
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae’r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw’r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu’n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni’r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â’ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 08 Lletygarwch yn y diwydiant teithio a thwristiaeth (TTW-02-08)

| **Crynodeb o'r uned** | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r cynnyrch a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan wahanol fathau o ddarparwyr lletygarwch a sut maent yn diwallu anghenion gwahanol gwsmeriaid. Bydd y dysgwr yn deall sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid priodol mewn lletygarwch. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall sut mae darparwyr lletygarwch gwahanol yn cynnig cynnyrch a gwasanaethau gwahanol | 1.1 Disgrifio'r cynnyrch a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan wahanol **fathau o ddarparwyr lletygarwch**<br>1.2 Disgrifio sut mae cynnyrch a gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan ddarparwr lletygarwch yn diwallu anghenion gwahanol gwsmeriaid | Defnyddio gwybodaeth am gynnyrch a gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan wahanol fathau o ddarparwyr lletygarwch, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am gynnyrch a gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan wahanol fathau o ddarparwyr lletygarwch, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am gynnyrch a gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan wahanol fathau o ddarparwyr lletygarwch, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |
| 2. Deall rôl gwahanol fathau o staff gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes lletygarwch | 2.1 Disgrifio **rolau gwahanol staff gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes lletygarwch** | Defnyddio gwybodaeth am rolau gwahanol staff gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes lletygarwch, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a | Defnyddio gwybodaeth am rolau gwahanol staff gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes lletygarwch, a geir mewn fformatau gwahanol o | Defnyddio gwybodaeth am rolau gwahanol staff gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes lletygarwch, a geir mewn fformatau gwahanol o |



DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | | chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun ar ffurf canllaw | ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf canllaw | wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf canllaw |
| 3. Deall y sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid sydd eu hangen mewn lletygarwch | 3.1 Disgrifio **sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid** priodol mewn lletygarwch | Defnyddio gwybodaeth am sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid mewn lletygarwch, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf llawlyfr hyfforddi | Defnyddio gwybodaeth am sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid mewn lletygarwch, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf llawlyfr hyfforddi | Defnyddio gwybodaeth am sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid mewn lletygarwch, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf llawlyfr hyfforddi |

**Ystod**

**1.1** Gall y **mathau o ddarparwyr lletygarwch** gynnwys:

- darparwyr llety – dyma enghreifftiau:
    - pentrefi gwyliau
    - gwestai
    - llety gwely a brecwast
    - meysydd gwersylla
    - hunanarlwyo
- bwytai
- bariau
- lleoliadau sy'n gwasanaethu marchnadoedd domestig ac ymwelwyr.

Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi enghreifftiau mewn cyd-destun drwy gyfeirio at ddarparwyr lletygarwch sy'n gweithredu yng Nghymru.

DRAFT

| Ystod |
|---|
| Lle bo'n berthnasol, gall y darparwr lletygarwch a ddewiswyd fod wedi'i leoli yng Nghymru i gefnogi dealltwriaeth gyd-destunol o anghenion cwsmeriaid, proffiliau ymwelwyr a darpariaeth gwasanaeth.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• diffiniad o 'lletygarwch'<br>• y cynnyrch a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i gwsmeriaid busnes a hamdden gan wahanol fathau o ddarparwyr lletygarwch<br>• sut mae un darparwr lletygarwch a ddewiswyd yn diwallu anghenion cwsmeriaid hamdden a busnes.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• taflen<br>• tudalen we<br>• cofnodion cyfarfodydd<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• taflen holi ac ateb<br>• taflenni gwaith. |

| Ystod |
|---|
| **2.1** Gall **rolau gwahanol staff gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes lletygarwch** gynnwys:<br><br>• rheolwr lletygarwch<br>• cogydd<br>• derbynnydd<br>• gofalwr |



DRAFFT

**Ystod**

- staff bar
- gweinydd
- porthor
- 

Er mwyn rhoi cyd-destun, gall cyfweliadau gynnwys unigolion sy'n gweithio yn y sector lletygarwch yng Nghymru, lle bo hynny'n briodol.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:

- y rolau allweddol mewn sefydliad lletygarwch.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- canllaw
- taflenni gwaith
- dogfen, astudiaeth achos neu gyflwyniad 'diwrnod ym mywyd'
- tystiolaeth gan dyst
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- taflen holi ac ateb.

**Ystod**

**3.1** Rhaid i **sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid** gynnwys:

- gwrando'n astud
- agwedd groesawgar
- talu sylw
- gwybodaeth am y cynnyrch neu'r gwasanaeth

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| • defnyddio iaith gadarnhaol.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• rhoi sylw i'r canlynol:<br>  ○ sgiliau priodol gwasanaeth i gwsmeriaid gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod ar gyfer o leiaf ddwy rôl lletygarwch a ddewiswyd<br>  ○ lefelau gwasanaeth derbyniol, codau ymddygiad, ac ymddygiad derbyniol ac annerbyniol ar gyfer gweithwyr newydd<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth.<br><br>Gall canolfannau ymestyn y drafodaeth i gynnwys effaith a chanlyniadau posibl gwasanaeth gwael i gwsmeriaid ar y sefydliad, profiad staff ac ymwelwyr.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• llawlyfr hyfforddi<br>• taflenni gwaith<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• taflen holi ac ateb. |

| Canllawiau cyflawni ac asesu |
| --- |
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol. |

DRAFFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 09 Trefnu digwyddiad (TTW-02-09)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o wahanol fathau o ddigwyddiadau, yn ogystal â phwysigrwydd digwyddiadau a chynadleddau i economi'r DU. Byddant hefyd yn cymryd rhan yn y gwaith o drefnu digwyddiad ac adolygu eu cyfraniad. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall diwydiant cynadleddau a digwyddiadau'r DU | 1.1 Disgrifio gwahanol **fathau o ddigwyddiadau**<br>1.2 Disgrifio pwysigrwydd y diwydiant cynadleddau a digwyddiadau i economi'r DU<br>1.3 Disgrifio'r **rolau allweddol** sy'n gysylltiedig â threfnu digwyddiad | Defnyddio gwybodaeth am ddiwydiant cynadleddau a digwyddiadau'r DU, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun ar ffurf adroddiad | Defnyddio gwybodaeth am ddiwydiant cynadleddau a digwyddiadau'r DU, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun ar ffurf adroddiad | Defnyddio gwybodaeth am ddiwydiant cynadleddau a digwyddiadau'r DU, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf adroddiad |
| 2. Gallu helpu i gynnal digwyddiad | 2.1 Dangos y **cynnig** ar gyfer digwyddiad<br>2.2 Dangos ei fod wedi cymryd rhan yn y gwaith o **gynllunio digwyddiad**<br>2.3 Disgrifio'r broses o helpu i gynnal digwyddiad | Cwblhau a chyflwyno tasgau priodol gan ddilyn briff penodol gydag elfen o gywirdeb. Dangos sut i ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth dechnegol i fodloni'r briff | Cwblhau tasgau'n gywir i raddau helaeth, gan ddilyn briff penodol. Dangos bod sgiliau a gwybodaeth dechnegol yn cael ei defnyddio'n effeithiol i fodloni'r briff | Cwblhau tasgau'n gywir, gan fodloni holl ofynion y briff penodol. Dangos sut i ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth dechnegol yn gyson ac yn effeithiol i fodloni'r briff |

DRAFFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 3. Gallu adolygu'r digwyddiad | 3.1 Dangos sut mae'r amcanion wedi'u bodloni | Disgrifio'r prosesau a'r arferion a oedd yn gysylltiedig â chynnal y digwyddiad a nodi rhai agweddau ar beth oedd wedi gweithio'n dda a beth nad oedd wedi gweithio cystal | Disgrifio'r prosesau a'r arferion a oedd yn gysylltiedig â chynnal y digwyddiad a nodi beth oedd wedi gweithio'n dda a beth nad oedd wedi gweithio cystal | Disgrifio'r prosesau a'r arferion a oedd yn gysylltiedig â chynnal y digwyddiad a nodi beth oedd wedi gweithio'n dda a beth nad oedd wedi gweithio cystal |
| | 3.2 Dangos cryfderau a gwendidau<br>3.3 Dangos cyfleoedd i wella | Nodi amrywiaeth o gryfderau a gwendidau'r digwyddiad gyda thystiolaeth ategol | Nodi amrywiaeth o gryfderau a gwendidau'r digwyddiad gyda thystiolaeth ategol, a disgrifio'r effaith ar y canlyniad cyffredinol | Disgrifio amrywiaeth o gryfderau a gwendidau'r digwyddiad gyda thystiolaeth ategol, gan ddangos tystiolaeth o gydnabod gwahanol lefelau o bwysigrwydd |

| **Ystod** |
|---|
| **1.1** Rhaid i'r **mathau o ddigwyddiadau** gynnwys:<br><br>• digwyddiadau diwylliannol<br>• digwyddiadau chwaraeon<br>• gwyliau<br>• digwyddiadau meithrin tîm<br>• digwyddiadau lletygarwch corfforaethol<br>• ffeiriau priodas<br>• cyfarfodydd, cymhellion, cynadleddau ac arddangosfeydd (MICE).<br><br>Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi enghreifftiau mewn cyd-destun drwy gyfeirio at ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru, gan gynnal trosolwg o'r sector ledled y DU – dyma enghreifftiau:<br><br>• yr Eisteddfod Genedlaethol<br>• Gŵyl Fwyd y Fenni |

DRAFT

**Ystod**

- Gŵyl y Dyn Gwyrdd
- gwyliau diwylliannol lleol
- gwyliau bwyd a diod
- cynadleddau busnes neu ffeiriau masnach.

**1.3** Rhaid i'r **prif rolau** gynnwys y canlynol:

- cyllid
- cydlynu
- storio adnoddau
- marchnata
- dyrchafiad
- iechyd a diogelwch

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:

- mathau o ddigwyddiadau gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod
- pwysigrwydd y diwydiant cynadleddau a digwyddiadau i economi'r DU
- y rolau allweddol sy'n gysylltiedig â threfnu digwyddiad, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- adroddiad ysgrifenedig
- taflenni gwaith
- cofnodion cyfarfodydd
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- taflen holi ac ateb.

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| **2.1** Rhaid i **gynnig** gynnwys:<br><br>• amcanion a phwrpas y digwyddiad – dyma enghreifftiau:<br>  ○ cyhoeddiad<br>  ○ dathliad<br>  ○ achlysur cymdeithasol<br>  ○ lansiad cynnyrch<br>  ○ digwyddiad elusennol<br>• thema digwyddiad<br>• lleoliad<br>• dichonolrwydd (cost, amser ac adnoddau).<br><br>Er mwyn rhoi cyd-destun, gellir lleoli'r digwyddiad yng Nghymru, er mwyn gallu ystyried lleoliadau lleol, cynulleidfaoedd a ffactorau logistaidd lle bo hynny'n briodol.<br><br>**2.2** Rhaid i **drefnu digwyddiad** gynnwys:<br><br>• dyddiad ac amser<br>• cyfranogwyr<br>• cyllideb<br>• yr adnoddau sydd eu hangen – dyma enghreifftiau:<br>  ○ adnoddau dynol<br>  ○ cyfarpar<br>  ○ deunyddiau<br>  ○ TG<br>• gweithgareddau marchnata a hyrwyddo<br>• cynllun a pharatoi'r lleoliad<br>• gofynion iechyd a diogelwch<br>• gofynion arbennig – dyma enghreifftiau:<br>  ○ anghenion symudedd<br>  ○ gwasanaethau cyfieithu neu gyfieithu ar y pryd<br>  ○ dolenni sain |

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| ○ alergeddau<br>○ archebion teithio a llety<br>○ gofynion crefyddol neu ddiwylliannol<br>○ gofynion diogelwch.<br><br>Lle bo'n berthnasol, gellir trefnu digwyddiadau mewn cymuned, lleoliad addysgol neu weithle yng Nghymru.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• llunio cynnig ar gyfer digwyddiad yn seiliedig ar friff, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod<br>• paratoi cynllun digwyddiad yn seiliedig ar y rhestr yn yr ystod<br>• helpu i gynnal digwyddiad yn unol â'r cynllun, gan gynnwys adfer y lleoliad i'w gyflwr gwreiddiol<br>• cadw cofnod o'r holl benderfyniadau, materion a phwyntiau dysgu allweddol o'r profiad.<br><br>Gall dysgwyr weithio mewn grŵp. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• dyddlyfr neu ddyddiadur myfyriol<br>• log gwaith strwythuredig<br>• taflenni gwaith<br>• cofnodion cyfarfodydd<br>• tystiolaeth gan dyst<br>• adroddiadau arsylwi asesydd/cymheiriaid<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• adroddiad ysgrifenedig. |

DRAFT

## Ystod

**3.1, 3.2, 3.3**

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- adolygu’r digwyddiad, gan gynnwys:
  - llwyddiant y digwyddiad
  - ei gyfraniad ei hun
  - cyfraniad eraill
  - argymhellion ar gyfer gwella
- gwerthuso llwyddiant y digwyddiad gan ddefnyddio data perthnasol, gan gynnwys sut cafodd ei gasglu a’i gofnodi
- llunio cynllun gweithredu ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

**Rhaid** cynnwys adborth gan aseswyr, cymheiriaid a mynychwyr.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio’r math neu’r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- adolygiad ysgrifenedig
- arolygon
- taflenni gwaith
- tystiolaeth gan dyst
- adroddiadau arsylwi asesydd/cymheiriad
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol.

## Canllawiau cyflawni ac asesu

Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae’r termau hyn yn berthnasol.

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 10 Cyflwyniad i deithiau tywys (TTW-02-10)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr am rôl tywysydd teithiau a gwahanol fathau o deithiau. Bydd y dysgwr yn cynllunio ac yn cyflwyno taith dywys. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **64 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall rôl tywysydd teithiau | 1.1 Disgrifio **sgiliau, priodoleddau, rolau** a **chyfrifoldebau**, a **set sgiliau tywysydd teithiau** | Defnyddio gwybodaeth am sgiliau, priodoleddau, rolau a chyfrifoldebau, a set sgiliau tywysydd teithiau, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am sgiliau, priodoleddau, rolau a chyfrifoldebau, a set sgiliau tywysydd teithiau, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am sgiliau, priodoleddau, rolau a chyfrifoldebau, a set sgiliau tywysydd teithiau, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |
| 2. Deall elfennau taith dywys | 2.1 Disgrifio gwahanol **fathau o deithiau**<br>2.2 Disgrifio iechyd a diogelwch, trafnidiaeth, asesu risg a sylwebaethau<br>2.3 Disgrifio **ymgysylltiad cynulleidfa** a **gwybodaeth am y cynnyrch** | Defnyddio gwybodaeth am elfennau taith dywys, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am elfennau taith dywys, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am elfennau taith dywys, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 3. Gallu cynllunio a darparu taith dywys | 3.1 Dangos y gallu i lunio **amserlen** taith dywys<br>3.2 Dangos bod **asesiad risg** yn cael ei lunio<br>3.3 Dangos y gallu i ddarparu taith dywys | Dangos ei fod yn defnyddio'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a darparu taith dywys | Dangos ei fod yn defnyddio amrywiaeth o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a darparu taith dywys | Dangos defnydd cyson o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a darparu taith dywys |

**Ystod**

**1.1** Gall **tywysydd teithiau** gynnwys:

- tywyswyr tripiau undydd
- tywyswyr teithiau bws
- cynrychiolwyr gwyliau tramor.

**1.1** Gall **sgiliau** gynnwys:

- cyfathrebu
- datrys problemau
- ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- dealltwriaeth o ddiwylliannau gwahanol.

**1.1** Gall **nodweddion** gynnwys:

- ymddangosiad personol
- blaengar
- prydlon
- cyfeillgar
- gwybodus
- amyneddgar
- hoffus
- hyblyg.

DRAFFT

**Ystod**

**1.1** Gall **rolau** gynnwys:

- cwrdd â chwsmeriaid
- croesawu
- trefnu trafnidiaeth
- cynllunio ac arwain teithiau
- delio â phroblemau
- ymgysylltu â chwsmeriaid.

**1.1** Gall **cyfrifoldebau** gynnwys:

- goruchwylio gofynion iechyd a diogelwch
- diwallu anghenion cwsmeriaid lle bo hynny'n bosibl
- rheoli grŵp y daith.

**1.1** Gall **set sgiliau** gynnwys:

- cymhwyster Bathodyn Glas
- cymhwyster Bathodyn Gwyrdd
- cymwysterau perthnasol eraill ar gyfer teithiau tywys.

Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi enghreifftiau mewn cyd-destun gan ddefnyddio lleoliadau yng Nghymru, fel trefi, dinasoedd, ardaloedd arfordirol neu safleoedd treftadaeth. Gall hyn gynnwys ystyried sut mae tywyswyr teithiau effeithiol yn cyfrannu at brofiadau cadarnhaol i gwsmeriaid, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg lle bo hynny'n berthnasol.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r canlynol:
  - y mathau o dywyswyr teithiau, sgiliau, priodoleddau, rolau a chyfrifoldebau
  - sgiliau gofynnol tywysydd teithiau
- cynhyrchu llyfryddiaeth.



DRAFFT

| Ystod |
|---|
| **Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• tudalen gyrfaoedd neu gyflwyniad<br>• taflenni gwaith<br>• cofnodion cyfarfodydd<br>• tystiolaeth gan dyst<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• taflen holi ac ateb. |

| Ystod |
|---|
| **2.1** Gall y **mathau o deithiau** gynnwys:<br><br>• teithiau o gwmpas dinasoedd<br>• teithiau cerdded<br>• teithiau mwy nag un diwrnod<br>• teithiau trefol<br>• teithiau gwledig<br>• teithiau treftadaeth.<br><br>Er mwyn rhoi cyd-destun, gellir lleoli'r digwyddiad yng Nghymru, er mwyn gallu ystyried lleoliadau lleol, cynulleidfaoedd a ffactorau logistaidd lle bo hynny'n briodol.<br><br>**2.3** Rhaid i **ymgysylltiad cynulleidfa** gynnwys y canlynol:<br><br>• sut i ymgysylltu â chynulleidfaoedd<br>• rhesymau pam mae cynulleidfaoedd yn mynd ar deithiau<br>• sut gall ffactorau fel oedran, symudedd, hil a rhywedd effeithio ar y graddau y mae grŵp yn ymgysylltu. |

**Ystod**

**2.3** Rhaid i **wybodaeth am gynnyrch** gynnwys y canlynol:

- hanes
- anecdotau
- ystadegau
- archeoleg
- daearyddiaeth/daeareg.

Gall canolfannau hefyd annog dysgwyr i ystyried effeithiau posibl twristiaeth ar gyrchfannau teithiau tywys a phwysigrwydd arferion twristiaeth cyfrifol a chynaliadwy.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r canlynol:
  - o leiaf dau fath o daith dywys
  - pam mae iechyd a diogelwch yn bwysig a'r rhesymau dros gynnal asesiad risg
  - sut i ymgysylltu â chynulleidfaoedd, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod
  - pwysigrwydd gwybodaeth am gynnyrch, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- taflenni gwaith
- taflen wybodaeth/tudalen we
- llawlyfr hyfforddi
- cofnodion cyfarfodydd
- adroddiadau arsylwi
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol



DRAFT

**Ystod**

- trafodaeth broffesiynol
- adroddiad ysgrifenedig
- taflen holi ac ateb.

**Ystod**

**3.1** Rhaid i'r **amserlen** gynnwys:

- pryd a ble fydd y daith yn cael ei chynnal
- lleoliad
- man cychwyn a gorffen
- faint o amser y bydd y daith yn ei gymryd
- amseroedd ac egwyliau
- hygyrchedd
- hanes byr neu grynodeb o'r prif bwyntiau y bydd y daith yn rhoi sylw iddynt
- ffotograffau a delweddau.

Er mwyn rhoi cyd-destun, gellir lleoli'r daith dywys yng Nghymru lle bo hynny'n briodol, i gefnogi darpariaeth realistig ac asesiad risg.

**3.2** Rhaid i'r **asesiad risg** gynnwys y canlynol:

- peryglon posibl neu wirioneddol
- lefel y risg
- atebion i leihau risg.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- llunio amserlen taith dywys, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod
- llunio asesiad risg llawn, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod
- darparu taith dywys i grŵp (er enghraifft, cyfoedion, asesydd), gan gadw at yr amseroedd, y llwybr a'r gyllideb a nodwyd
- cael adborth gan y rhai sy'n cymryd rhan yn y daith
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

DRAFT

## Ystod

Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- taflen wybodaeth/llyfryn
- bwrdd gwybodaeth i ymwelwyr neu dudalen we
- taflenni gwaith
- ffotograffau
- dyddiadur/dyddlyfr myfyriol
- tystiolaeth gan dyst
- adroddiadau arsylwi asesydd/cymheiriad
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol.

## Canllawiau cyflawni ac asesu

Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.

Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.

Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.

Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol.

DRAFT

# Uned 11 Effaith darpariaeth teithio a thwristiaeth ar gymuned letyol (TTW-02-11)

| **Crynodeb o'r uned** | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o ran effaith teithio a thwristiaeth ar gymuned letyol a phwysigrwydd twristiaeth gyfrifol. Bydd y dysgwr yn asesu effeithiau cadarnhaol a negyddol teithio a thwristiaeth ar gymuned letyol. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall effaith darpariaeth teithio a thwristiaeth ar gymuned letyol | 1.1 Disgrifio'r **cyfleusterau teithio a thwristiaeth** sy'n bresennol mewn cymuned letyol | Defnyddio gwybodaeth am gymunedau lletyol, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am gymunedau lletyol, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am gymunedau lletyol, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol mathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |
| | 1.2 Disgrifio pwysigrwydd twristiaeth gynaliadwy | Disgrifio damcaniaethau a chysyniadau perthnasol am bwysigrwydd twristiaeth gyfrifol | Disgrifio damcaniaethau a chysyniadau perthnasol am dwristiaeth gynaliadwy a gwneud rhai cysylltiadau rhyngddynt | Disgrifio damcaniaethau a chysyniadau am dwristiaeth gynaliadwy ac egluro sut maent yn gysylltiedig |
| 2. Gallu asesu i ba raddau mae twristiaeth yn effeithio ar gymuned letyol. | 2.1 Asesu **effeithiau** cadarnhaol a negyddol teithio a thwristiaeth ar gymuned letyol | Ymchwilio i effaith teithio a thwristiaeth ar gymuned letyol gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol o un math o ffynhonnell i lywio'r asesiad | Ymchwilio i effaith teithio a thwristiaeth ar gymuned letyol gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol o fwy nag un math o ffynhonnell ac mewn fformatau gwahanol i lywio'r | Ymchwilio i effaith teithio a thwristiaeth ar gymuned letyol gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau a fformatau fel sail i'r asesiad |

DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | | | asesiad | |

**Ystod**

**1.1** Rhaid i **gyfleusterau teithio a thwristiaeth** gynnwys:

- trafnidiaeth
- llety
- atyniadau i dwristiaid
- gwasanaethau i dwristiaid
- gall cyfleusterau a gwasanaethau ategol gynnwys:
  - toiledau cyhoeddus
  - banciau
  - darpariaeth bwyd a diod
  - adwerthu
  - gwasanaethau gwybodaeth i ymwelwyr.

Lle bo'n briodol, gall y gymuned letyol a ddewiswyd fod wedi'i lleoli yng Nghymru – dyma enghreifftiau:

- trefi arfordirol fel Dinbych-y-pysgod neu Landudno
- cyrchfannau gwledig fel y rheini ym Mharc Cenedlaethol Eryri neu Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- cyrchfannau dinesig i dwristiaid fel Bae Caerdydd.

Gall y fframweithiau perthnasol gynnwys y canlynol:

- Cylch Bywyd Ardal Twristiaeth Butler (1980)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Er mwyn rhoi cyd-destun, gall enghreifftiau a ddefnyddir i ddangos twristiaeth gyfrifol ddefnyddio arferion sy'n berthnasol i gyrchfannau yng Nghymru, lle bo hynny'n briodol.

**Gofyniad asesu:**

DRAFFT

**Ystod**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r canlynol:
  - diffiniad ac esboniad o'r term 'cymuned letyol'
  - y cyfleusterau teithio a thwristiaeth sy'n bresennol yn y gymuned letyol o'u dewis, gan gynnwys trafnidiaeth, llety, atyniadau i dwristiaid a gwasanaethau i dwristiaid
  - prif bwyntiau twristiaeth gyfrifol a'i phwysigrwydd i gyflenwyr, cwsmeriaid a'r gymuned letyol
- cynhyrchu llyfryddiaeth gan gyfeirio at y gymuned a ddewiswyd i gynnal y digwyddiad.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- taflenni gwaith
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- adroddiad ysgrifenedig
- taflen holi ac ateb.

**Ystod**

**2.1** Rhaid i'r **effeithiau** gynnwys:

- effeithiau economaidd
- effeithiau diwylliannol
- effeithiau cymdeithasol
- effeithiau amgylcheddol.

Gall dysgwyr ddefnyddio ystadegau ymwelwyr neu ddata effaith arall i gefnogi eu hasesiad.

Lle bo'n briodol, gall asesiad o'r effeithiau gyfeirio at gymuned letyol yng Nghymru – dyma enghreifftiau:

DRAFT

**Ystod**

- effaith niferoedd uchel o ymwelwyr ar erydu llwybrau troed a seilwaith cymunedol ym Mharc Cenedlaethol Eryri
- cyfraniad economaidd twristiaeth i gymuned arfordirol fel Dinbych-y-pysgod
- effeithiau diwylliannol a chymdeithasol digwyddiadau mawr ar Gaerdydd fel cyrchfan.

Gall dysgwyr ymweld â safle cymuned letyol er mwyn gweld yr effeithiau.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- asesu effeithiau cadarnhaol a negyddol teithio a thwristiaeth ar y gymuned letyol a ddewiswyd gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- taflenni gwaith
- cofnodion cyfarfodydd
- tystiolaeth gan dyst
- adroddiadau arsylwi asesydd/cymheiriad
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- adroddiad ysgrifenedig
- taflen holi ac ateb.

DRAFFT

| Canllawiau cyflawni ac asesu |
| --- |
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFT

# Uned 12 Twristiaeth mewn rhanbarth poblogaidd yn y DU (TTW-02-12)

| **Crynodeb o'r uned** | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a sgiliau dysgwyr sy'n ymwneud â nodweddion rhanbarth yn y DU a'i gyfleusterau twristiaeth. Bydd y dysgwr yn defnyddio data ystadegol i asesu tueddiadau twristiaeth mewn rhanbarth penodol. Bydd y dysgwr hefyd yn llunio amserlen ar gyfer ymweld â rhanbarth yn y DU. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Gwybod am ranbarth poblogaidd yn y DU a'i gyfleusterau twristiaeth | 1.1 Disgrifio **nodweddion** rhanbarth yn y DU sy'n berthnasol i dwristiaeth<br>1.2 Disgrifio **cyfleusterau twristiaeth** rhanbarth yn y DU | Defnyddio gwybodaeth am ranbarth yn y DU, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am ranbarth yn y DU, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am ranbarth yn y DU, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |
| 2. Gallu defnyddio data ystadegol sy'n ymwneud â thwristiaeth mewn rhanbarth poblogaidd yn y DU | 2.1 Defnyddio'r **data ystadegol** sy'n asesu tueddiadau twristiaeth mewn rhanbarth twristiaeth yn y DU | Defnyddio data ystadegol yn ymwneud â thwristiaeth mewn rhanbarth poblogaidd yn y DU, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Defnyddio data ystadegol yn ymwneud â thwristiaeth mewn rhanbarth poblogaidd yn y DU, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun | Defnyddio data ystadegol yn ymwneud â thwristiaeth mewn rhanbarth poblogaidd yn y DU, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |

DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 3. Gallu llunio amserlen ar gyfer ymweld â rhanbarth yn y DU | 3.1 Llunio **amserlen** ar gyfer ymweliad twristiaeth byr â rhanbarth yn y DU | Cwblhau a chyflwyno amserlen gan ddilyn briff penodol gydag elfen o gywirdeb | Cwblhau a chyflwyno amserlen sy'n gywir i raddau helaeth, gan ddilyn briff penodol | Cwblhau a chyflwyno amserlen yn gywir, gan fodloni holl ofynion y briff penodol |

## Ystod

**1.1** Rhaid i nodweddion gynnwys:

- lleoliad a nodweddion daearyddol
- prif lwybrau a phyrth trafnidiaeth
- cyrchfannau poblogaidd.

Lle bo'n briodol, gall y rhanbarth dethol yn y DU fod wedi'i leoli yng Nghymru, gan alluogi dysgwyr i roi nodweddion daearyddol, pyrth trafnidiaeth a chyrchfannau mewn cyd-destun lleoliad rhanbarthol yng Nghymru.

**1.2** Rhaid i **gyfleusterau twristiaeth** gynnwys:

- atyniadau adeiledig
- atyniadau naturiol
- amrywiaeth o lety
- dewisiadau trafnidiaeth leol
- gwasanaethau i dwristiaid
- gwyliau a digwyddiadau
- bwytai, gweithgareddau ac adloniant.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i:
  - nodweddion sy'n berthnasol i dwristiaeth mewn rhanbarth dethol yn y DU, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod

DRAFT

| Ystod |
|---|
| ○ sut mae cyfleusterau twristiaeth yn y rhanbarth dan sylw yn diwallu anghenion twristiaid domestig a rhai sy'n dod i'r rhanbarth, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth.<br><br>Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• mapiau<br>• taflenni gwaith<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• taflen holi ac ateb. |

| Ystod |
|---|
| **2.1** Rhaid i **ddata ystadegol** gynnwys:<br><br>• nifer yr ymwelwyr<br>• gwariant ymwelwyr<br>• pwysigrwydd twristiaeth i economi'r rhanbarth<br>• sut mae twristiaeth wedi effeithio ar economi'r rhanbarth<br>• sut mae nifer yr ymwelwyr wedi newid dros amser<br>• dylanwadau allanol ar y rhanbarth – dyma enghreifftiau:<br>  ○ digwyddiadau chwaraeon mawr fel Cwpan Rygbi'r Byd<br>  ○ digwyddiadau diwylliannol fel yr Eisteddfod Genedlaethol.<br><br>Gellir hefyd ystyried pwrpas yr ymweliad a hyd yr arhosiad. |

**Ystod**

Gall ffynonellau swyddogol gynnwys:

- VisitBritain
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Ystadegau Cymru.

Er mwyn rhoi cyd-destun, gall dysgwyr ddefnyddio data ystadegol sy'n ymwneud â rhanbarth yng Nghymru lle bo hynny'n briodol

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- ymchwilio a defnyddio data ystadegol ar gyfer y rhanbarth dan sylw, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- siartiau
- graffiau
- tablau
- taflenni gwaith
- cofnodion cyfarfodydd
- adroddiadau arsylwi
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiad ysgrifenedig
- taflen holi ac ateb.

| Ystod |
|---|
| **3.1** Rhaid i'r **amserlen** gynnwys:<br><br>• dewisiadau trafnidiaeth ac amser<br>• llety<br>• alldeithiau, gweithgareddau ac adloniant<br>• llefydd diddorol i ymweld â nhw<br>• trefniadau arlwyo.<br><br>Gall dysgwyr hefyd gynnwys costau dangosol ar gyfer elfennau fel trafnidiaeth, llety, bwyd a diod, a gweithgareddau.<br><br>Gall canolfannau ymestyn y dasg drwy ofyn i ddysgwyr lunio amserlenni ar wahanol bwyntiau pris neu ar gyfer tymhorau gwahanol.<br><br>Lle bo'n briodol, gall yr amserlen fod yn seiliedig ar ymweliad arhosiad byr mewn rhanbarth yng Nghymru, gan gefnogi defnydd realistig o drafnidiaeth, llety a phrofiadau ymwelwyr.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• llunio amserlen ar gyfer ymweliad twristiaeth arhosiad byr â'r rhanbarth dethol yn y DU, yn seiliedig ar astudiaeth achos neu ddisgrifiad cryno, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• taflenni gwaith<br>• cofnodion cyfarfodydd<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• adroddiad ysgrifenedig. |



DRAFFT

| Canllawiau cyflawni ac asesu |
|---|
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFT

# Uned 13 Gwybod am feysydd awyr a chwmnïau hedfan (TTW-02-13)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae meysydd awyr yn eu cynnig i deithwyr a chwmnïau hedfan, a'r gwahaniaeth rhwng ochr yr awyr ac ochr y tir. Bydd y dysgwr yn gwybod sut mae meysydd awyr yn rheoli iechyd a diogelwch, a'r gwahanol gyfleoedd gwaith mewn meysydd awyr a gyda chwmnïau hedfan. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Gwybod am y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae meysydd awyr yn eu cynnig | 1. Disgrifio'r **cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae meysydd awyr yn eu darparu i deithwyr** | Defnyddio gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a gynigir gan meysydd awyr a chwmnïau hedfan, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a gynigir gan feysydd awyr a chwmnïau hedfan, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a gynigir gan feysydd awyr a chwmnïau hedfan, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |
| | 1.2 Disgrifio'r **cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae meysydd awyr yn eu darparu i gwmnïau teithio** | | | |
| | 1.3 Disgrifio'r gwahaniaeth rhwng ochr yr awyr ac ochr y tir | | | |
| 2. Deall sut mae meysydd awyr yn | 2.1 Disgrifio trefniadau diogelwch presennol a newydd | Defnyddio gwybodaeth am y ffordd mae meysydd awyr yn rheoli | Defnyddio gwybodaeth am y ffordd mae meysydd awyr yn rheoli | Defnyddio gwybodaeth am y ffordd mae meysydd awyr yn rheoli |

DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| rheoli iechyd a diogelwch | 2.2 Disgrifio peryglon mewn meysydd awyr<br>2.3 Esbonio sut mae peryglon yn cael eu rheoli mewn meysydd awyr | iechyd a diogelwch, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | iechyd a diogelwch, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun | iechyd a diogelwch, a geir mewn gwahanol fformatau o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |
| 3. Gwybod am fathau o gyfleoedd gwaith mewn meysydd awyr a gyda chwmnïau hedfan | 3.1 Disgrifio'r gwahanol **fathau o swyddi** mewn meysydd awyr a gyda chwmnïau hedfan | Defnyddio gwybodaeth am gyfleoedd swyddi mewn meysydd awyr a gyda chwmnïau hedfan, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am gyfleoedd swyddi mewn meysydd awyr a gyda chwmnïau hedfan, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am gyfleoedd swyddi mewn meysydd awyr a gyda chwmnïau hedfan, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |

**Ystod**

**1.1** Gall y **cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae meysydd awyr yn eu darparu i deithwyr** gynnwys:

- neuaddau cofrestru
- pwyntiau sgrinio diogelwch
- gatiau byrddio
- mannau trin bagiau
- standiau awyrennau
- parthau gweithredu cyfyngedig.

**1.2** Gall y **cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae meysydd awyr yn eu darparu i gwmnïau teithio** gynnwys:

- desgiau cofrestru
- lolfeydd

DRAFT

**Ystod**

- cyfleusterau giât
- gwasanaethau trin ar y tir.

Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi enghreifftiau mewn cyd-destun drwy gyfeirio at feysydd awyr sy'n gweithredu yng Nghymru, gan gadw dealltwriaeth ehangach o'r DU gyfan – dyma enghreifftiau:

- Maes Awyr Caerdydd
- Maes Awyr John Lennon Lerpwl (ar gyfer canolfannau yng Ngogledd Cymru)
- Maes Awyr Manceinion (ar gyfer canolfannau yng Ngogledd Cymru).

Gall dysgwyr elwa o ymweliad addysgol â maes awyr lleol neu gyfleuster sy'n gysylltiedig â hedfanaeth. Pan fydd ymweliad wedi digwydd, dylid darparu tystiolaeth weledol lle bo hynny'n bosibl.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r canlynol:
  - cyfleusterau a gwasanaethau y mae meysydd awyr yn eu darparu i deithwyr, gan gynnwys cynllun o'r maes awyr sy'n dangos ardaloedd ochr yr awyr ac ardaloedd ar ochr y tir
  - cyfleusterau a gwasanaethau y mae meysydd awyr yn eu darparu i gwmnïau awyrennau, yn wahanol i'r gwasanaethau y mae cwmnïau awyrennau yn eu darparu i deithwyr
  - y gwahaniaeth rhwng ochr yr awyr ac ochr y tir
  - o leiaf ddau gwmni awyrennau, gan gynnwys:
    - gwahanol fathau (cost isel, siarter ac wedi'i drefnu)
    - cymharu lefelau gwasanaeth
    - systemau archebu, prisiau a chyrchfannau
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.

**Mathau o dystiolaeth:**

DRAFFT

**Ystod**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- canllaw neu lyfryn
- tudalen we
- ffotograffau
- taflenni gwaith
- cofnodion cyfarfodydd
- adroddiadau arsylwi
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- taflen holi ac ateb.

**Ystod**

**2.1, 2.2, 2.3**

Gall canolfannau annog dysgwyr i drafod gweithdrefnau diogelwch cyfoes, gan gynnwys ymatebion i fygythiadau diogelwch, lle bo hynny'n briodol.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r canlynol:
  - gweithdrefnau diogelwch presennol a newydd mewn meysydd awyr
  - peryglon mewn meysydd awyr, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a thollau
  - sut mae peryglon yn cael eu rheoli mewn meysydd awyr, gan gynnwys iechyd, diogelwch, tollau a lwfansau
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.



DRAFFT

| Ystod |
|---|
| **Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• taflenni<br>• taflenni canllawiau<br>• taflenni gwaith<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• taflen holi ac ateb. |

| Ystod |
|---|
| **3.1** Gall y **mathau o swyddi** gynnwys:<br><br>• staff trin bagiau<br>• staff diogelwch<br>• rheolwr terfynell<br>• criw caban<br>• peilot<br>• archebu/gwerthu.<br><br>Lle bo'n briodol, gellir dod o hyd i enghreifftiau o swyddi mewn meysydd awyr neu gwmnïau awyrennau sy'n gweithredu yng Nghymru neu sy'n gwasanaethu Cymru, i gefnogi ymwybyddiaeth o'r farchnad lafur leol.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• amrywiaeth o gyfleoedd gwaith sydd ar gael mewn meysydd awyr a chwmnïau awyrennau, gan gynnwys swyddi yn y maes awyr a gyda chwmni awyrennau |

DRAFFT

## Ystod

- ar gyfer pob swydd:
  - rolau a chyfrifoldebau
  - y cymwysterau sydd eu hangen
  - y sgiliau gofynnol
  - gwybodaeth/profiad blaenorol
  - mathau o gontractau cyflogaeth a gynigir (er enghraifft, contractau tymhorol).

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio’r math neu’r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- taflen gyrfaoedd
- tudalennau gwe
- taflenni gwaith
- cofnodion cyfarfodydd
- tystiolaeth gan dyst
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- taflen holi ac ateb.

## Canllawiau cyflawni ac asesu

Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae’r termau hyn yn berthnasol.

Dim ond arweiniad yw’r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu’n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.

Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni’r gofyniad hwn.

| Canllawiau cyflawni ac asesu |
| --- |
| Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 14 Cynllunio gyrfa yn y diwydiant teithio a thwristiaeth (TTW-02-14)

| **Crynodeb o'r uned** | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a sgiliau dysgwyr am y gwahanol opsiynau gyrfa a'r cyfleoedd i ddatblygu yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Bydd y dysgwr yn cynllunio ar gyfer opsiwn gyrfa o'i ddewis ac yn llunio cais. Bydd y dysgwr hefyd yn cymryd rhan mewn cyfweliad swydd priodol. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall y mathau o yrfaoedd sydd ar gael yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 1.1 Disgrifio'r gwahanol yrfaoedd sydd ar gael yn y diwydiant teithio a thwristiaeth<br>1.2 Disgrifio **llwybrau dilyniant** a chyfleoedd mewn dewisiadau gyrfa gwahanol yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | Defnyddio gwybodaeth am opsiynau gyrfa a llwybrau dilyniant, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am opsiynau gyrfa a llwybrau dilyniant, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am opsiynau gyrfa a llwybrau dilyniant, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol mathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf adroddiad |
| 2. Gallu cynllunio ar gyfer gyrfa yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 2.1 Dangos cyflogadwyedd ar gyfer opsiwn gyrfa o'i ddewis yn y diwydiant teithio a thwristiaeth<br>2.2 Dangos cynnydd at opsiwn gyrfa dewisol yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | Dod i gasgliadau cywir am yr opsiwn gyrfa mae wedi'i ddewis, yn seiliedig ar rywfaint o wybodaeth | Dod i gasgliadau cywir am yr opsiwn gyrfa mae wedi'i ddewis, yn seiliedig ar amrywiaeth o wybodaeth | Dod i gasgliadau cywir am yr opsiwn gyrfa mae wedi'i ddewis, gan asesu'r holl wybodaeth |

DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 3. Gallu gwneud cais am swyddi yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 3.1 Disgrifio sut mae dod o hyd i gyfleoedd gwaith yn y diwydiant teithio a thwristiaeth<br>3.2 Llunio cais a CV ar gyfer swydd o'i ddewis yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | Llunio rhestr a chyflwyno cais am swydd a CV gan ddilyn briff penodol gyda rhywfaint o gywirdeb ar gyfer cyfle gwaith realistig | Llunio rhestr a chwblhau cais am swydd a CV yn gywir i raddau helaeth ar gyfer cyfle gwaith realistig | Llunio rhestr a chwblhau cais am swydd a CV yn gywir, gan fodloni'r holl ofynion ar gyfer cyfle gwaith realistig |
| 4. Gallu cymryd rhan mewn cyfweliad am swydd yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 4.1 Dangos sut i **gynllunio ar gyfer cyfweliad** am swydd o'i ddewis yn y diwydiant teithio a thwristiaeth<br>4.2 Cymryd rhan mewn cyfweliad ar gyfer swydd o'i ddewis yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | Gorffen paratoi a chwblhau cyfweliad priodol ar gyfer swydd benodol gydag elfen o gywirdeb | Cwblhau'r gwaith paratoi a'r cyfweliad ar gyfer y swydd o'i ddewis yn gywir i raddau helaeth | Cwblhau'r gwaith paratoi a'r cyfweliad, gan fodloni holl ofynion y swydd o'i ddewis |

| **Ystod** |
|---|
| **1.2** Gall **llwybrau dilyniant** gynnwys:<br><br>• posibiliadau o ran dyrchafiad<br>• trosglwyddo rhwng cyflogwyr/swyddi<br>• mathau o gontractau gwaith<br>• effaith debygol y tueddiadau economaidd presennol<br>• yr hyfforddiant, y cymwysterau a'r profiad sydd ei angen<br>• yr amrywiaeth o ddyletswyddau sy'n debygol o gael eu cyflawni<br>• buddion staff, gan gynnwys tâl a manteision. |

DRAFT

**Ystod**

Lle bo'n briodol, gall enghreifftiau o swyddi ac opsiynau gyrfa ddod gan gyflogwyr sy'n gweithredu yng Nghymru.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i:
  - gwahanol opsiynau gyrfa sydd ar gael yn y diwydiant teithio a thwristiaeth
  - llwybrau dilyniant a chyfleoedd ar gyfer dau opsiwn gyrfa o leiaf, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- adroddiad
- taflenni gwaith
- taflen ffeithiau gyrfaoedd
- cofnodion cyfarfodydd
- adroddiadau arsylwi
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- adroddiad ysgrifenedig
- taflen holi ac ateb.

**Ystod**

**2.1, 2.2**

DRAFFT

**Ystod**

Er mwyn rhoi cyd-destun, gall yr opsiwn gyrfa dewisol adlewyrchu cyfleoedd sydd ar gael yn y sector teithio a thwristiaeth yng Nghymru, lle bo hynny'n briodol.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- archwilio sgiliau ar gyfer opsiwn gyrfa o'u dewis yn y diwydiant teithio a thwristiaeth, gan gynnwys:
    - sgiliau a rhinweddau cyfredol
    - llwyddiannau
    - cymwysterau
    - profiad
    - diddordebau
- egluro'r mathau o gynnydd at yr opsiwn gyrfa dewisol yn y diwydiant teithio a thwristiaeth
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- taflenni
- taflenni canllawiau
- taflenni gwaith
- adroddiadau arsylwi
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- adroddiad ysgrifenedig
- taflen holi ac ateb.

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| **3.1, 3.2**<br><br>Lle bo'n berthnasol, gall ffynonellau gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â chyflogwyr teithio a thwristiaeth sy'n gweithredu yng Nghymru.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• cynhyrchu rhestr o ffynonellau gwybodaeth am gyfleoedd gwaith yn y diwydiant teithio a thwristiaeth, gan gynnwys gwefannau, papurau masnach a chylchgronau<br>• nodi cyfle gwaith realistig (neu ddefnyddio un a ddarperir gan yr asesydd) a chwblhau cais am swydd o safon diwydiant wedi'i ategu gan CV manwl<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth.<br><br>Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• taflenni gwaith<br>• tystiolaeth gan dyst<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• taflen holi ac ateb. |

| Ystod |
| --- |
| **4.1** Rhaid i **gynllunio ar gyfer cyfweliad** gynnwys: |

DRAFT

**Ystod**

- ymchwilio i'r cwmni
- y swydd a'r cynnyrch
- y gwasanaethau neu'r cyfleusterau a gynigir
- rhestr o gwestiynau a phwyntiau trafod wedi'u paratoi ymlaen llaw

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- cynllunio ar gyfer cyfweliad yn seiliedig ar y rhestr yn yr ystod
- gwisgo'n briodol ar gyfer y cyfweliad neu'r efelychiad
- cynhyrchu adolygiad o'r cyfweliad gan gynnwys:
    - iaith y corff
    - ymateb i gwestiynau
    - gofyn cwestiynau
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

**Rhaid** i ddysgwyr gynnwys adborth gan gyfoedion, aseswyr neu bobl eraill yn yr adolygiad, a darparu tystiolaeth ategol o'r cyfweliad naill ai gan y cyfwelydd (os yw'n gyfweliad go iawn) neu gofnod arsylwi wedi'i lofnodi gan yr asesydd a'r dysgwr (os yw'n gyfweliad ffug).

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- cwestiynau cyfweliad
- proffil cwmni
- adborth arsylwad gan asesydd/cymheiriad
- adolygiad ysgrifenedig
- tystiolaeth gan dyst
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol

| **Ystod** |
|---|
| • adroddiad ysgrifenedig. |

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
|---|
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFT

# Uned 15 Profiad gwaith yn y diwydiant teithio a thwristiaeth (TTW-02-15)

| **Crynodeb o'r uned** | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a sgiliau dysgwyr i baratoi ar gyfer lleoliad profiad gwaith. Er mwyn datblygu ymhellach, bydd y dysgwr yn adolygu ei berfformiad ei hun ac yn llunio cynllun gweithredu. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **64 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall y gwaith paratoi sydd ei angen ar gyfer lleoliad profiad gwaith | 1.1 Disgrifio'r **trefniadau angenrheidiol** i baratoi ar gyfer profiad gwaith | Llenwi holiadur ar gyfer lleoliad profiad gwaith gyda rhywfaint o gywirdeb | Llenwi holiadur ar gyfer lleoliad profiad gwaith yn gywir i raddau helaeth | Llenwi holiadur ar gyfer lleoliad profiad gwaith sy'n bodloni'r holl ofynion |
| 2. Gallu ymgymryd â chyfnod o brofiad gwaith | 2.1 Cymryd rhan mewn cyfnod o brofiad gwaith | Dangos sut i gymhwyso sgiliau cyflogadwyedd er mwyn cyflawni diben y profiad gwaith | Dangos sut i gymhwyso sgiliau cyflogadwyedd yn effeithiol er mwyn cyflawni diben y profiad gwaith | Dangos defnydd cyson ac effeithiol o sgiliau cyflogadwyedd wrth gyflawni diben y profiad gwaith |
| 3. Gallu adolygu ei berfformiad ei hun ar leoliad profiad gwaith yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 3.1 Pwyso a mesur effaith y profiad gwaith ar ei ddatblygiad personol | Dod i gasgliadau cywir am berfformiad y profiad gwaith, yn seiliedig ar rywfaint o'r wybodaeth a gafwyd drwy gydol y lleoliad gwaith | Dod i gasgliadau cywir am berfformiad y profiad gwaith ar sail y rhan fwyaf o'r wybodaeth a gafwyd drwy gydol y lleoliad | Dod i gasgliadau cywir am berfformiad y profiad gwaith, yn seiliedig ar yr holl wybodaeth a gafwyd drwy gydol y lleoliad |
| | 3.2 Pwyso a mesur cryfderau a gwendidau ei brofiad gwaith<br>3.3 Myfyrio ar yr hyn y byddai'n ei wneud yn wahanol pe bai'n cael cyfle i | Disgrifio'r prosesau dan sylw a nodi rhai cryfderau a gwendidau. Nodi dwy ffordd syml o wella'r profiad | Disgrifio'r prosesau dan sylw a nodi'r cryfderau a'r gwendidau. Nodi ffyrdd datblygedig o wella'r profiad | Disgrifio'r prosesau dan sylw a nodi'r cryfderau a'r gwendidau. Nodi ffyrdd datblygedig o wella'r profiad drwy ddatblygu ac egluro syniadau |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | ymgymryd â'r profiad eto | | | |
| | 3.4 Myfyrio ar **adborth** gan asesydd/cyflogwr a/neu gyfoedion | | | |

**Ystod**

**1.1** Rhaid i'r **trefniadau angenrheidiol** gynnwys:

- pwrpas y lleoliad profiad gwaith
- canlyniadau disgwyliedig
- ymddygiad ac ymddangosiad personol disgwyliedig
- gweithdrefnau iechyd a diogelwch y sefydliad
- disgrifiad o'r sefydliad, a'i bwrpas a'i strwythur
- rôl a chyfrifoldebau disgwyliedig y dysgwr yn ystod y lleoliad
- disgrifiad o gynnyrch a gwasanaethau'r sefydliad
- trefniadau egwyliau a chinio yn ystod profiad gwaith
- gofynion adrodd ar gyfer profiad gwaith
- cod gwisg priodol ar gyfer y profiad gwaith.

Lle bo'n briodol, gellir ymgymryd â lleoliadau profiad gwaith gyda sefydliadau teithio a thwristiaeth sy'n gweithredu yng Nghymru. Gall llwybrau adlewyrchu opsiynau teithio lleol yng Nghymru, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus neu ystyriaethau teithio rhanbarthol, lle bo hynny'n briodol.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r canlynol:
  - y trefniadau angenrheidiol i baratoi ar gyfer profiad gwaith, wedi'u dogfennu drwy holiadur a gafodd ei lenwi cyn dechrau'r lleoliad, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| ○ llwybr yn ôl ac ymlaen o brofiad gwaith gyda'r costau a'r amseroedd<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth.<br><br>Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• dyddiadur myfyriol neu log/cofnod lleoliad<br>• taflenni gwaith<br>• cofnodion cyfarfodydd<br>• tystiolaeth gan dyst<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• adroddiad ysgrifenedig. |

| Ystod |
|---|
| **2.1**<br><br>Gall dysgwyr hefyd fyfyrio ar yr heriau y gwnaethant eu hwynebu yn ystod y lleoliad gwaith a sut gwnaethant fynd i'r afael â'r rhain.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• ysgrifennu a diweddaru log/cofnod drwy gydol y lleoliad, gan roi manylion am y canlynol:<br>○ y tasgau a gyflawnwyd<br>○ sut mae wedi gwrando ar gyfarwyddiadau ac wedi ymateb iddynt<br>○ sut mae wedi gweithio fel aelod o dîm |



DRAFFT

**Ystod**

- dulliau cyfathrebu a ddefnyddir yn y sefydliad
- tair gweithdrefn o leiaf a ddefnyddir yn y sefydliad
- sgiliau cyflogadwyedd a ddatblygwyd yn ystod y profiad.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- dyddiadur myfyriol neu log/cofnod lleoliad
- taflenni gwaith
- cofnodion cyfarfodydd
- tystiolaeth gan dyst
- adroddiadau arsylwi
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- adroddiad ysgrifenedig.

**Ystod**

**3.4** Rhaid cael **adborth** gan:

- goruchwyliwr lleoliad gwaith
- cyflogwr
- asesydd
- cymheiriaid.

Efallai y bydd dysgwyr hefyd yn ystyried sut gallent ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd ymhellach i baratoi ar gyfer profiad gwaith neu gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

DRAFFT

**Ystod**

- nodi'r sgiliau a ddatblygwyd yn ystod y lleoliad profiad gwaith
- pwyso a mesur cryfderau a gwendidau y profiad gwaith
- darparu datganiad o'r hyn y byddent yn ei wneud yn wahanol mewn profiad gwaith neu gyfle cyflogaeth nesaf
- cynnwys adborth gan o leiaf un neu ragor o'r canlynol:
    - goruchwyliwr lleoliad gwaith
    - cyflogwr
    - asesydd
    - cymheiriaid.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- cofnod dyddiadur neu leoliad
- taflenni gwaith
- cofnodion cyfarfodydd
- tystiolaeth gan dyst
- adroddiadau arsylwi
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- adroddiad ysgrifenedig.

**Canllawiau cyflawni ac asesu**

Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.

Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.



DRAFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 16 Twristiaeth arfordirol y DU (TTW-02-16)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o wahanol fathau o dwristiaeth arfordirol ac ystyried y gwahanol ffactorau cysylltiedig. Bydd y dysgwyr yn dewis lleoliad ac yn ymchwilio iddo. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall cyrchfannau twristiaeth arfordirol y DU | 1.1 Esbonio cyrchfannau twristiaeth arfordirol y DU, gan gynnwys:<br>• trefi glan môr, llwybrau arfordirol, ynysoedd, chwaraeon neu weithgareddau<br>• lleoliad cyrchfannau twristiaeth arfordirol<br>• gwahanol **fathau o ymwelwyr neu grwpiau ymwelwyr**<br>• **gwahanol anghenion ymwelwyr**<br>• **sefydliadau allweddol** sy'n gyfrifol am reoli ardaloedd arfordirol | Deall twristiaeth arfordirol a chymhwyso rhai termau technegol yn gywir.<br>Nodi ardaloedd twristiaeth arfordirol gan ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn o leiaf ddwy ffynhonnell, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Deall agweddau ar dwristiaeth arfordirol a defnyddio amrywiaeth o dermau technegol yn gywir. Nodi ardaloedd twristiaeth arfordirol gan ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Deall agweddau ar dwristiaeth arfordirol a chymhwyso amrywiaeth eang o dermau technegol yn gyson ac yn gywir.<br>Nodi ardaloedd twristiaeth arfordirol gan ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn amrywiaeth eang o fformatau gwahanol ac o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |
| 2. Deall twristiaeth arfordirol drwy | 2.1 Esbonio ymchwil i gyrchfan twristiaeth | Deall twristiaeth arfordirol a chymhwyso | Deall agweddau ar dwristiaeth arfordirol a | Deall agweddau ar dwristiaeth arfordirol a |

DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| ymchwilio i gyrchfan twristiaeth arfordirol leol | arfordirol leol, gan gynnwys:<br>• lleoliad sydd wedi'i nodi<br>• yr apêl i ymwelwyr gwahanol<br>• cysylltiadau trafnidiaeth<br>• natur dymhorol<br>• mathau o ymwelwyr<br>• mathau o lety | rhai termau technegol yn gywir. Nodi ardaloedd twristiaeth arfordirol gan ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | defnyddio amrywiaeth o dermau technegol yn gywir. Nodi ardaloedd twristiaeth arfordirol gan ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | chymhwyso amrywiaeth eang o dermau technegol yn gyson ac yn gywir. Nodi ardaloedd twristiaeth arfordirol gan ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn gwahanol fformatau ac o amrywiaeth eang o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |

## Ystod

**1.1** Gall **mathau o ymwelwyr neu grwpiau ymwelwyr** gynnwys:

- ymwelwyr gorffwys ac ymlacio
- ymwelwyr gweithgareddau
- ymwelwyr â diddordebau arbennig
- ymwelwyr busnes
- ymwelwyr gweithgareddau grŵp.

**1.1** Gall **gwahanol anghenion ymwelwyr** gynnwys:

- trafnidiaeth
- llety
- hygyrchedd
- cyfleusterau
- cyfathrebu
- natur dymhorol
- adloniant
- gwasanaethau gweld ac arwain.

DRAFT

**Ystod**

**1.1** Rhaid i'r **prif sefydliadau** gynnwys:

- yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Tirweddau Cenedlaethol (Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol gynt)
- Parciau Cenedlaethol Arfordirol
- Gwobrau Traeth Glân
- cynghorau lleol
- gwasanaethau achub.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r canlynol:
  - diffiniadau o'r mathau o gyrchfannau arfordirol, gan gynnwys:
    - trefi glan môr
    - llwybr yr arfordir
    - ynysoedd a chyrchfannau chwaraeon neu weithgareddau, gydag enghreifftiau o'r gweithgareddau sydd ar gael fel gwylio bywyd gwyllt, syrffio, canŵio
  - o leiaf dair cyrchfan twristiaeth arfordirol yn y DU wedi'u nodi ar fap gwag o'r DU
  - gwahanol fathau o ymwelwyr neu grwpiau ymwelwyr a'u hanghenion gwahanol
  - sefydliadau allweddol sy'n gyfrifol am reoli ardaloedd arfordirol gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod, gan gynnwys ar gyfer pob un:
    - prif gyfrifoldebau
    - datganiad cenhadaeth
    - rolau
    - aelodau
    - statws cyhoeddus/preifat/gwirfoddol
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

Gall dysgwyr gynnwys, at ddibenion cyd-destun, o leiaf un o'r cyrchfannau twristiaeth arfordirol yng Nghymru – gall enghreifftiau gynnwys:

DRAFT

**Ystod**

- ardaloedd arfordirol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Cymru.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio’r math neu’r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- taflenni gwaith
- mapiau
- adroddiadau arsylwi
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- adroddiad ysgrifenedig
- taflen holi ac ateb.

**Ystod**

**2.1**

Lle bo’n berthnasol, gall y gyrchfan twristiaeth arfordirol ddewisol fod wedi’i lleoli yng Nghymru. Gall canolfannau hefyd ddefnyddio sefydliadau yng Nghymru i gefnogi dealltwriaeth o’r cyd-destun – dyma enghreifftiau:

- Twristiaeth Gogledd Cymru
- Cadw.

Efallai y bydd dysgwyr hefyd yn ystyried effeithiau ehangach twristiaeth ar y gyrchfan dan sylw – gall enghreifftiau gynnwys:

- manteision economaidd
- pwysau amgylcheddol
- effaith ar gymunedau lleol.

**Gofyniad asesu:**

**Ystod**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r canlynol:
  - lleoliad y gyrchfan twristiaeth arfordirol a ddewiswyd, wedi'i nodi ar fap gyda chyfarwyddiadau i deithwyr ar ddefnyddio rheilffyrdd, ffyrdd neu fathau eraill o drafnidiaeth
  - apêl y gyrchfan i wahanol ymwelwyr a pham
  - cysylltiadau trafnidiaeth â'r gyrchfan
  - natur dymhorol y gyrchfan, gan gynnwys rhesymau os yw'n effeithio'n benodol ar y gyrchfan
  - mathau o ymwelwyr a mathau o lety
  - gweithgareddau ac atyniadau penodol yn y gyrchfan
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- cyflwyniad
- deunyddiau marchnata
- mapiau
- taflenni gwaith
- cofnodion cyfarfodydd
- tystiolaeth gan dyst
- adroddiadau arsylwi
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiad ysgrifenedig
- taflen holi ac ateb.

DRAFFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae’r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw’r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu’n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni’r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â’ch sicrhawr ansawdd allanol. |

# Uned 17 Twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth (TTW-02-17)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o dwristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth yn y DU a ledled y byd, a'r ffactorau cysylltiedig. Bydd y dysgwr yn dewis cyrchfan ac yn ymchwilio iddi. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth yn y DU ac ar draws y byd | 1.1 Esbonio twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth yn y DU a ledled y byd, gan gynnwys:<br>• diffinio twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth<br>• **mathau o dwristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth**<br>• lleoliad safleoedd twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth<br>• gwahanol fathau o ymwelwyr a grwpiau o ymwelwyr<br>• gwahanol anghenion ymwelwyr | Defnyddio rhai termau technegol am dwristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth yn gywir.<br>Defnyddio gwybodaeth am dwristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun er mwyn cynhyrchu tablau cymharu | Defnyddio amrywiaeth o dermau technegol sy'n ymwneud â thwristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth yn gywir.<br>Defnyddio gwybodaeth am dwristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun er mwyn cynhyrchu tablau cymharu | Defnyddio amrywiaeth eang o dermau technegol am dwristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth yn gyson ac yn gywir.<br>Defnyddio gwybodaeth am dwristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun er mwyn cynhyrchu tablau cymharu |

DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | • y **sefydliadau allweddol** sy'n gyfrifol am reoli twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth | | | |
| 2. Deall agweddau ar dwristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth drwy ymchwilio i gyrchfan twristiaeth ddiwylliannol neu dreftadaeth yn y DU neu ledled y byd | 2.1 Esbonio ymchwil i gyrchfan twristiaeth ddiwylliannol neu dreftadaeth yn y DU neu ledled y byd, gan gynnwys:<br>• y lleoliad sydd wedi'i nodi<br>• cysylltiadau trafnidiaeth<br>• natur dymhorol<br>• apêl yr ardaloedd<br>• mathau o ymwelwyr<br>• mathau o lety | Deall agweddau ar dwristiaeth diwylliannol a threftadaeth, a defnyddio rhai termau technegol yn gywir.<br>Defnyddio gwybodaeth a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Deall agweddau ar dwristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth a defnyddio amrywiaeth o dermau technegol yn gywir.<br>Nodi ardaloedd twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth gan ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Deall agweddau ar dwristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth a chymhwyso amrywiaeth eang o dermau technegol yn gyson ac yn gywir.<br>Nodi ardaloedd twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth gan ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn amrywiaeth eang o fformatau o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |

| **Ystod** |
|---|
| **1.1** Gall **mathau o dwristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth** gynnwys:<br><br>• hanesyddol<br>• amgylcheddol<br>• grwpiau cymdeithasol<br>• amgueddfeydd<br>• orielau celf. |

DRAFT

**Ystod**

Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi dysgu mewn cyd-destun drwy gynnwys safleoedd twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth yng Nghymru – dyma enghreifftiau:

- Castell Caerffili
- Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte
- Pentref Portmeirion
- Canolfan Mileniwm Cymru.

1.1 Rhaid i'r **prif sefydliadau** gynnwys:

- VisitBritain
- yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- UNESCO
- rhaglen Treftadaeth y Byd UNESCO.

Lle bo'n briodol, gellir cyfeirio at sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru – dyma enghreifftiau:

- Cadw
- cyrff treftadaeth eraill Cymru.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r canlynol:
  - diffiniad o dwristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth, gydag enghreifftiau disgrifiadol
  - safleoedd twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth ar fapiau gwag o'r DU a'r byd
  - gwahanol fathau o ymwelwyr a grwpiau o ymwelwyr, a'u hanghenion unigol
  - sefydliadau allweddol sy'n gyfrifol am reoli twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth, gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod, gan nodi a chymharu pob un
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

DRAFFT

**Ystod**

Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- mapiau
- tablau cymharu
- taflenni gwaith
- adroddiad ysgrifenedig
- adroddiadau arsylwi
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- taflen holi ac ateb.

**Ystod**

**2.1**

Lle bo'n berthnasol, gall y gyrchfan twristiaeth arfordirol ddewisol fod wedi'i lleoli yng Nghymru. Gall canolfannau hefyd ddefnyddio sefydliadau yng Nghymru i gefnogi dealltwriaeth o'r cyd-destun – dyma enghreifftiau:

- Twristiaeth Gogledd Cymru
- Cadw.

Efallai y bydd dysgwyr hefyd yn ystyried effeithiau ehangach twristiaeth ar y gyrchfan dan sylw – dyma enghreifftiau:

- manteision economaidd
- pwysau amgylcheddol
- effaith ar gymunedau lleol.

**Gofyniad asesu:**

DRAFT

## Ystod

**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:

- lleoliad y gyrchfan twristiaeth ddiwylliannol neu dreftadaeth a ddewiswyd yn y DU neu ledled y byd, wedi'i nodi ar fap gyda chyfarwyddiadau i deithwyr ar ddefnyddio rheilffyrdd, ffyrdd neu fathau eraill o drafnidiaeth
- apêl y gyrchfan i wahanol ymwelwyr a pham
- natur dymhorol y gyrchfan, gan gynnwys rhesymau os yw'n effeithio'n benodol ar y gyrchfan
- mathau o ymwelwyr a mathau o lety.

Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- cyflwyniad
- deunyddiau marchnata
- tudalennau gwe
- taflenni gwaith
- adroddiadau arsylwi asesydd/cymheiriad
- dyddiadur/dyddlyfr myfyriol
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- adroddiad ysgrifenedig
- taflen holi ac ateb.

## Canllawiau cyflawni ac asesu

Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.

Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar

DRAFFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
|---|
| yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 18 Twristiaeth wledig y DU (TTW-02-18)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o dwristiaeth wledig y DU a'r gwahanol ffactorau sy'n gysylltiedig â hi. Bydd y dysgwr yn dewis cyrchfan ac yn ymchwilio iddi. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall agweddau ar dwristiaeth wledig yn y DU | 1.1 Esbonio'r agweddau canlynol ar dwristiaeth wledig yn y DU:<br>• twristiaeth arfordirol, cefn gwlad, fferm, treftadaeth<br>• lleoliad **cyrchfannau twristiaeth wledig**<br>• **gwahanol fathau o ymwelwyr a'u hanghenion**<br>• **sefydliadau allweddol** sy'n gyfrifol am reoli ardaloedd gwledig | Defnyddio rhai termau technegol am dwristiaeth wledig yn gywir. Defnyddio gwybodaeth am dwristiaeth wledig, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Deall agweddau ar dwristiaeth wledig a defnyddio amrywiaeth o dermau technegol yn gywir. Nodi ardaloedd twristiaeth wledig gan ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Deall agweddau ar dwristiaeth wledig a chymhwyso amrywiaeth eang o dermau technegol yn gyson ac yn gywir. Nodi ardaloedd twristiaeth wledig gan ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn amrywiaeth eang o fformatau o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |
| 2. Deall agweddau ar dwristiaeth wledig drwy ymchwilio i gyrchfan twristiaeth wledig leol | 2.1 Esbonio ymchwil i gyrchfan twristiaeth wledig leol, gan gynnwys:<br>• y lleoliad sydd wedi'i nodi | Deall agweddau ar dwristiaeth wledig a defnyddio rhywfaint o dermau technegol yn gywir. Defnyddio gwybodaeth a | Deall agweddau ar dwristiaeth wledig a defnyddio amrywiaeth o dermau technegol yn gywir. Nodi ardaloedd | Deall agweddau ar dwristiaeth wledig a defnyddio amrywiaeth eang o dermau technegol yn gyson ac yn gywir. |

DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | • rhestr o atyniadau<br>• cysylltiadau trafnidiaeth<br>• natur dymhorol<br>• apêl yr ardaloedd<br>• mathau o ymwelwyr<br>• mathau o lety | geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | twristiaeth wledig gan ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Nodi ardaloedd twristiaeth wledig gan ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn amrywiaeth eang o fformatau o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |

**Ystod**

**1.1** Rhaid i **gyrchfannau twristiaeth gwledig** gynnwys:

- arfordir
- cefn gwlad
- twristiaeth fferm
- twristiaeth treftadaeth
- gall y gweithgareddau sydd ar gael mewn gwahanol ardaloedd gwledig gynnwys:
    - sylwi ar fywyd gwyllt
    - cerdded
    - ogofa
    - gwersylla
    - beicio mynydd
    - dringo.

Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi dysgu mewn cyd-destun drwy gynnwys cyrchfannau twristiaeth wledig yng Nghymru – dyma enghreifftiau:

- Parc Cenedlaethol Eryri
- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- lleoliadau twristiaeth fferm.

DRAFFT

**Ystod**

**1.1** Rhaid i **wahanol fathau o ymwelwyr a'u hanghenion** gynnwys:

- gwahanol fathau o ymwelwyr – dyma enghreifftiau:
  - ymwelwyr gorffwys ac ymlacio
  - ymwelwyr gweithgareddau
  - ymwelwyr â diddordebau arbennig
  - ymwelwyr busnes
  - ymwelwyr gweithgareddau grŵp
- anghenion ymwelwyr – dyma enghreifftiau:
  - trafnidiaeth
  - llety
  - hygyrchedd
  - cyfleusterau
  - cyfathrebu
  - natur dymhorol
  - adloniant
  - gwasanaethau gweld ac arwain.

**1.1** Rhaid i'r **prif sefydliadau** gynnwys:

- yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- y Comisiwn Coedwigaeth
- Parciau Cenedlaethol
- Tirweddau Cenedlaethol (Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol gynt)
- cynghorau lleol
- gwasanaethau achub.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r canlynol:

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| ○ diffiniadau o'r mathau o gyrchfannau gwledig, gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod, gydag enghreifftiau o'r gweithgareddau sydd ar gael<br>○ o leiaf dair cyrchfan twristiaeth wledig yn y DU wedi'u nodi ar fap gwag o'r DU<br>○ gwahanol fathau o ymwelwyr a'u hanghenion<br>○ y sefydliadau allweddol sy'n gyfrifol am reoli ardaloedd gwledig gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod, gan gynnwys ar gyfer pob un:<br>▪ prif gyfrifoldebau<br>▪ datganiad cenhadaeth<br>▪ rolau<br>▪ aelodau<br>▪ statws cyhoeddus/preifat/gwirfoddol<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth.<br><br>Er mwyn rhoi cyd-destun, gall dysgwyr gynnwys o leiaf un o'r cyrchfannau twristiaeth wledig yng Nghymru, lle bo hynny'n briodol.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• taflenni gwaith<br>• cofnodion cyfarfodydd<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• taflen holi ac ateb. |

| Ystod |
| --- |
| **2.1**<br><br>Lle bo'n berthnasol, efallai y bydd y gyrchfan twristiaeth wledig a ddewisir wedi'i lleoli yng Nghymru i gefnogi dealltwriaeth gyd-destunol o apêl ymwelwyr, llety a natur dymhorol.<br>**Gofyniad asesu:** |



DRAFT

**Ystod**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r canlynol:
  - lleoliad y gyrchfan twristiaeth ddiwylliannol neu dreftadaeth a ddewiswyd yn y DU neu ledled y byd, wedi'i nodi ar fap gyda chyfarwyddiadau i deithwyr ar ddefnyddio rheilffyrdd, ffyrdd neu fathau eraill o drafnidiaeth
  - rhestr o atyniadau yn y gyrchfan
  - apêl y gyrchfan i wahanol ymwelwyr a pham
  - cysylltiadau trafnidiaeth
  - natur dymhorol y gyrchfan, gan gynnwys rhesymau os yw'n effeithio'n benodol ar y gyrchfan
  - mathau o ymwelwyr a mathau o lety
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- cyflwyniad
- adroddiad ysgrifenedig
- deunyddiau marchnata
- map lleoliad
- taflenni gwaith
- cofnodion cyfarfodydd
- tystiolaeth gan dyst
- adroddiadau arsylwi
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- taflen holi ac ateb.

DRAFFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFT

# Uned 19 Deall twristiaeth arbenigol (TTW-02-19)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o dwristiaeth arbenigol ac ymchwilio i amrywiaeth o gyrchfannau twristiaeth arbenigol addas. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall agweddau ar dwristiaeth arbenigol | 1.1 Esbonio'r agweddau canlynol ar dwristiaeth arbenigol:<br>• beth yw twristiaeth arbenigol<br>• gwahanol **fathau o dwristiaeth arbenigol**<br>• lleoliadau twristiaeth arbenigol<br>• **effaith ffordd o fyw**<br>• tueddiadau ac ystadegau | Deall twristiaeth arbenigol a chymhwyso rhai termau technegol yn gywir.<br>Diffinio mathau ac ardaloedd twristiaeth arbenigol gan ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Deall agweddau ar dwristiaeth arbenigol a chymhwyso amrywiaeth o dermau technegol yn gyson ac yn gywir.<br>Diffinio mathau ac ardaloedd twristiaeth arbenigol gan ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun | Deall agweddau ar dwristiaeth arbenigol a chymhwyso amrywiaeth eang o dermau technegol yn gyson ac yn gywir. Diffinio mathau ac ardaloedd twristiaeth arbenigol gan ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn gwahanol fformatau o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |
| 2. Deall agweddau ar dwristiaeth arbenigol drwy ymchwilio i gyrchfannau twristiaeth addas | 2.1 Esbonio ymchwil i gyrchfannau twristiaeth addas, gan gynnwys:<br>• y lleoliad sydd wedi'i nodi | Deall agweddau ar dwristiaeth arbenigol a defnyddio rhywfaint o dermau technegol yn gywir.<br>Defnyddio gwybodaeth am gyrchfannau | Deall agweddau ar dwristiaeth arbenigol a defnyddio amrywiaeth o dermau technegol yn gywir.<br>Defnyddio gwybodaeth am gyrchfannau | Deall agweddau ar dwristiaeth arbenigol a chymhwyso amrywiaeth eang o dermau technegol yn gywir.<br>Defnyddio amrywiaeth eang o wahanol fathau o |

DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | • ei ddealltwriaeth o'r amrywiaeth o anghenion cwsmeriaid<br>• opsiynau addas<br>• cydnabod cyfyngiadau fel cost, amser<br>• natur dymhorol<br>• mathau o ymwelwyr<br>• mathau o lety | twristiaeth arbenigol, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | twristiaeth arbenigol, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun | wybodaeth am gyrchfannau twristiaeth arbenigol, a geir mewn gwahanol fformatau o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |

## Ystod

**1.1** Gall y **mathau o dwristiaeth arbenigol** gynnwys:

- twristiaeth gwirfoddolwyr
- twristiaeth antur
- twristiaeth chwaraeon
- twristiaeth bywyd gwyllt
- twristiaeth ddiwylliannol
- twristiaeth bwyd
- twristiaeth grefyddol
- twristiaeth llesiant
- ecodwristiaeth.

Lle bo'n briodol, gellir rhoi enghreifftiau o dwristiaeth arbenigol mewn cyd-destun gan ddefnyddio cyrchfannau neu weithgareddau yng Nghymru, gan gadw persbectif y DU gyfan a safbwynt rhyngwladol.

At ddibenion cyd-destun, gall gweithgareddau mapio gynnwys nodi lleoliadau twristiaeth arbenigol yng Nghymru, lle bo hynny'n briodol.

**1.1** Gall **effaith ffordd o fyw** gynnwys:

- ffactorau ffordd o fyw a allai effeithio ar dwristiaeth arbenigol:

DRAFT

**Ystod**

  - nifer o wyliau byr – er enghraifft, teithwyr yn mynd ar nifer o wyliau'r flwyddyn gan gynnwys gwyliau penwythnos, teithiau gyda'r teulu neu wyliau dathlu
  - gwirfoddoli a theithio pwrpasol – er enghraifft, gwyliau i gefnogi elusennau neu'r amgylchedd
  - newidiadau demograffig – er enghraifft, poblogaeth sy'n heneiddio sy'n chwilio am gysur a lles da, neu oedolion iau sydd â mwy o incwm gwario ar gyfer teithio arbenigol
  - disgwyliadau uwch – er enghraifft, twristiaid yn chwilio fwyfwy am brofiadau unigryw ac ystyrlon mewn twristiaeth antur, eco, lles da a diwylliannol
  - gwaith a thechnoleg hyblyg – er enghraifft, gweithio o bell a ffyrdd digidol o fyw sy'n golygu bod modd teithio'n amlach, gyda chyfryngau cymdeithasol yn siapio dewisiadau o ran cyrchfannau
  - heriau y gall rhai marchnadoedd twristiaeth arbenigol eu hwynebu – er enghraifft, maint cyfyngedig y farchnad, pwysau amgylcheddol neu or-fasnachu.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r canlynol:
  - diffiniad o dwristiaeth arbenigol ac esboniad o'r gwahanol fathau
  - lleoliadau safleoedd twristiaeth arbenigol wedi'u nodi ar fap gwag o'r byd
  - cynrychiolaeth ddarluniadol o dueddiadau ac ystadegau sy'n dangos newidiadau mewn twristiaeth arbenigol
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- pamffledi
- taflenni
- mapiau
- taflenni gwaith

DRAFT

| Ystod |
|---|
| • cofnodion cyfarfodydd<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• taflen holi ac ateb. |

**Ystod**

**2.1**

Gall dysgwyr hefyd gynnwys costau dangosol ar gyfer elfennau o'r amserlen – dyma enghreifftiau:

- trafnidiaeth
- llety
- gweithgareddau.

Lle bo'n berthnasol, gall yr amserlen fod yn seiliedig ar gyrchfan twristiaeth arbenigol yng Nghymru i gefnogi'r gwaith o ystyried anghenion ymwelwyr, natur dymhorol a hygyrchedd yn realistig.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r canlynol:
  - amserlen ar gyfer math penodol o ymwelydd diddordeb arbennig, yn seiliedig ar astudiaeth achos neu frîff, sy'n ymdrin â'r canlynol:
    - lleoliad, wedi'i ddangos ar fap gyda chyfarwyddiadau teithio ar y rheilffordd, ar y ffordd neu ar fathau eraill o drafnidiaeth
    - anghenion amrywiol cwsmeriaid a dewisiadau addas
    - cyfyngiadau fel cost, amser a'r tymhorau
    - mathau o ymwelwyr a pham mae'r gyrchfan yn apelio atynt
    - mathau o lety
    - natur dymhorol y gyrchfan, gan gynnwys rhesymau os yw'n effeithio'n benodol ar y gyrchfan
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

## Ystod

Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- mapiau
- amserlen
- taflenni gwaith
- cofnodion cyfarfodydd
- tystiolaeth gan dyst
- adroddiadau arsylwi
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- trafodaeth broffesiynol
- adroddiad ysgrifenedig.

## Canllawiau cyflawni ac asesu

Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.

Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.

Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.

Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol.

DRAFFT

# Uned 20 Menter mewn twristiaeth (TTW-02-20)

| **Crynodeb o'r uned** | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o fenter yn y diwydiant twristiaeth. Bydd y dysgwr yn llunio prosiect menter sy'n ymwneud â theithio a thwristiaeth ac yna'n llunio adolygiad o'i brosiect. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 2** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall yr angen am fenter yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 1.1 Esbonio'r angen canlynol am fenter yn y diwydiant teithio a thwristiaeth:<br>• **agweddau ar fenter**<br>• beth sy'n sbarduno menter<br>• y rhesymau pam mae'n rhaid i **fusnesau** fod yn fwy mentrus<br>• tueddiadau defnyddwyr<br>• datblygiadau cyfredol yn y sector<br>• y farchnad | Disgrifio damcaniaethau a chysyniadau perthnasol menter yn y diwydiant teithio a thwristiaeth.<br>Defnyddio gwybodaeth am fenter yn y diwydiant teithio a thwristiaeth, a geir mewn dwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Disgrifio damcaniaethau a chysyniadau perthnasol am fenter yn y diwydiant teithio a thwristiaeth a gwneud rhywfaint o gysylltiadau rhyngddynt.<br>Defnyddio gwybodaeth am fenter yn y diwydiant teithio a thwristiaeth, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir i raddau helaeth yn ei eiriau ei hun | Disgrifio damcaniaethau a chysyniadau am fenter yn y diwydiant teithio a thwristiaeth ac egluro sut maent yn gysylltiedig.<br>Defnyddio gwybodaeth am fenter yn y diwydiant teithio a thwristiaeth, a geir mewn fformatau gwahanol o amrywiaeth eang o wahanol ffynonellau, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun |
| 2. Gallu ymgymryd â phrosiect menter sy'n ymwneud â theithio a thwristiaeth | 2.1 Dangos prosiect menter sy'n ymwneud â theithio a thwristiaeth, gan gynnwys:<br>• **diben** y prosiect | Cwblhau a chyflwyno tasgau priodol gan ddilyn briff penodol gydag elfen o gywirdeb.<br>Ymchwilio gan ddefnyddio gwybodaeth | Cwblhau tasgau'n gywir i raddau helaeth, gan ddilyn briff penodol.<br>Ymchwilio gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol o fwy nag un | Cwblhau tasgau'n gywir, gan fodloni holl ofynion y briff penodol.<br>Ymchwilio gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol o amrywiaeth |



DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | • unrhyw ymchwil, gan gynnwys y defnydd posibl o gyfryngau a chyfryngau cymdeithasol<br>• llunio **cynnig**<br>• cynnig syniadau ar gyfer prosiect menter | berthnasol o un math o ffynhonnell i lywio camau gweithredu | math o ffynhonnell ac mewn fformatau gwahanol, i lywio camau gweithredu | eang o wahanol fathau o ffynonellau a fformatau i lywio camau gweithredu |
| 3 Gallu adolygu'r prosiect menter | 3.1 Dangos **adolygiad** o'r prosiect menter gan gynnwys:<br>• hunanwerthusiad o'r cynnig a'r cyflwyniad<br>• argymhellion ar gyfer gwella<br>• adborth gan gyfoedion, aseswyr neu gynulleidfa<br>• pa mor ymarferol yw awgrymiadau | Disgrifio'r prosesau a'r arferion sy'n gysylltiedig â chynhyrchu'r cynnig a'r cyflwyniad a nodi rhai agweddau ar beth aeth yn dda a beth nad oedd wedi gweithio cystal<br>Nodi amrywiaeth o gryfderau a gwendidau'r cynnig a'r cyflwyniad gyda thystiolaeth ategol | Disgrifio'r prosesau a'r arferion sy'n gysylltiedig â chynhyrchu'r cynnig a'r cyflwyniad a nodi beth aeth yn dda a beth nad oedd wedi gweithio cystal.<br>Nodi amrywiaeth o gryfderau a gwendidau'r cynnig a'r cyflwyniad gyda thystiolaeth ategol, a disgrifio'r effaith ar y canlyniad cyffredinol | Disgrifio'r prosesau a'r arferion sy'n gysylltiedig â llunio'r cynnig a'r cyflwyniad, a nodi beth aeth yn dda a beth nad oedd wedi gweithio cystal, ac unrhyw gyfleoedd i wella.<br>Disgrifio amrywiaeth o gryfderau a gwendidau'r cynnig a'r cyflwyniad gyda thystiolaeth ategol, gan ddangos gwahanol lefelau pwysigrwydd |

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| **1.1** Gall **agweddau ar fenter** gynnwys:<br><br>• arloesi<br>• entrepreneuriaeth<br>• cymryd risg<br>• ymateb i gyfleoedd yn y farchnad.<br><br>**1.1** Gall **busnesau** gynnwys:<br><br>• gweithrediadau teithiau<br>• atyniadau i ymwelwyr<br>• cwmnïau hedfan<br>• darparwyr llety<br>• sefydliadau cyrchfan.<br><br>Dyma rai o'r ffactorau sbarduno menter y gellid eu trafod:<br><br>• tueddiadau defnyddwyr<br>• newidiadau cymdeithasol<br>• newidiadau amgylcheddol<br>• newidiadau economaidd<br>• newidiadau gwleidyddol.<br><br>Er mwyn rhoi cyd-destun, gall hyn gynnwys archwilio prosiectau mentergarwch sydd ar waith yn y sector teithio a thwristiaeth yng Nghymru, lle bo hynny'n briodol.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• agweddau ar fenter yn y diwydiant teithio a thwristiaeth a beth sy'n ei gyrru<br>• rhesymau pam mae'n rhaid i fusnesau fod yn fwy mentrus, gydag enghreifftiau i'w hategu<br>• tueddiadau defnyddwyr, datblygiadau cyfredol yn y sector, a'r farchnad. |

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| **Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• taflenni gwaith<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• taflen holi ac ateb. |

| Ystod |
|---|
| **2.1** Gall y **diben** gynnwys:<br><br>• cynyddu nifer yr ymwelwyr<br>• hyrwyddo atyniad lleol<br>• datblygu digwyddiad twristiaeth<br>• creu cynnyrch neu wasanaeth twristiaeth newydd.<br><br>**2.1** Rhaid i'r **cynnig** gynnwys:<br><br>• diben y prosiect menter<br>• nodau ac amcanion<br>• disgrifiad o gynnyrch neu wasanaeth<br>• cwsmeriaid targed<br>• marchnata a hyrwyddo<br>• cyllideb<br>• yr adnoddau sydd eu hangen, gan gynnwys pobl, deunyddiau, cyfleusterau a chyfarpar.<br><br>Mae ffactorau ychwanegol y gellir eu hystyried hefyd yn cynnwys:<br><br>• pwynt gwerthu unigryw (USP) |

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| • ymchwil i'r farchnad<br>• cynllunio gweithredol<br>• ystyriaethau iechyd a diogelwch<br>• dulliau casglu adborth gan gwsmeriaid.<br><br>Lle bo'n berthnasol, gellir gosod prosiectau menter o fewn cyd-destun Cymreig – dyma enghreifftiau:<br><br>• cynlluniau sy'n cefnogi cyrchfannau lleol neu economïau ymwelwyr.<br><br>Gall ymchwil i gefnogi'r prosiect gynnwys:<br><br>• y cyfryngau<br>• cyfryngau cymdeithasol<br>• astudiaethau achos.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• nodi diben y prosiect menter a llunio cynllun prosiect<br>• llunio cynnig ar gyfer prosiect menter, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod<br>• cyflwyno'r cynnig i grŵp, a all gynnwys cyfoedion, aseswyr, cyflogwyr neu bobl eraill sydd â gwybodaeth briodol am y sector<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth.<br><br>Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• dogfen y cynnig<br>• taflenni gwaith |

| **Ystod** |
|---|
| • cofnodion cyfarfodydd<br>• tystiolaeth gan dyst<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• dyddiadur/dyddlyfr myfyriol. |

| **Ystod** |
|---|
| **3.1** Rhaid i **adolygiad** gynnwys:<br><br>• a yw amcanion y prosiect wedi'u cyflawni<br>• cyfiawnhau'r cynnyrch neu'r gwasanaeth dewisol<br>• apêl ac addasrwydd y cynnyrch neu'r gwasanaeth i'r gynulleidfa darged arfaethedig<br>• asesiad realistig o hyfywedd<br>• beth sydd wedi gweithio'n dda a beth sydd ddim wedi gweithio cystal<br>• meysydd i'w gwella<br>• asesiad gan gymheiriaid ac arsylwadau aseswyr<br>• adborth gan bobl eraill, lle bo hynny'n briodol.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• cynhyrchu adolygiad o'r prosiect menter drwy gasglu asesiadau gan gymheiriaid ac arsylwadau aseswyr ynghyd ag adborth gan eraill, gan gynnwys y rhestr yn yr ystod<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth.<br><br>Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith, wedi'i ategu gan gofnod arsylwi asesydd.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:** |

DRAFT

| **Ystod** |
| --- |
| Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• adolygiad ysgrifenedig<br>• taflenni gwaith<br>• tystiolaeth gan dyst<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol. |

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFT

## Strategaeth asesu NCFE

Mae prif ofynion y strategaethau neu'r egwyddorion asesu sy'n ymwneud ag unedau yn y cymwysterau hyn yn cael eu crynhoi isod.

Rhaid i'r ganolfan sicrhau bod unigolion sy'n ymgymryd â rolau asesydd neu sicrhawr ansawdd yn y ganolfan yn cydymffurfio â gofynion asesu'r uned y maent yn ei hasesu neu'n sicrhau ei hansawdd.

**Deilliannau Dysgu – Gwybodaeth**

- bydd angen i aseswyr fod yn alwedigaethol wybodus a chymwysedig i wneud penderfyniadau asesu.
- bydd angen i sicrhawyr ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus a chymwysedig i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

**Deilliannau Dysgu – Cymhwysedd/Sgiliau**

- bydd angen i aseswyr fod yn alwedigaethol gymwys a chymwysedig i wneud penderfyniadau asesu.
- bydd angen i sicrhawyr ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus a chymwysedig i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

Y ganolfan y mae'r dysgwyr wedi cofrestru â hi sy'n gyfrifol am wneud pob penderfyniad asesu. Rhaid **contractio** aseswyr i weithio'n uniongyrchol gyda'r ganolfan, gan gyfrannu at bob agwedd ar safoni. Rhaid i'r ganolfan sicrhau bod proses hyfforddi'n cael ei dilyn, gan gynnwys yn ystod gweithgareddau cynefino a sicrhau ansawdd. Rhaid i aseswyr o'r ganolfan sy'n alwedigaethol gymwys a chymwysedig arsylwi'n uniongyrchol i asesu canlyniadau ymarferol sy'n seiliedig ar sgiliau.

DRAFFT

# Adran 3: esbonio termau

Mae'r tabl hwn yn egluro sut mae'r termau sy’n cael eu defnyddio ar **lefel 2** yng nghynnwys yr uned yn cael eu cymhwyso i'r cymwysterau hyn (nid yw pob berf yn cael ei defnyddio yn y cymwysterau hyn).

| | |
|---|---|
| **Cymhwyso** | Cysylltu gwybodaeth sydd ar gael eisoes i sefyllfaoedd newydd neu wahanol. |
| **Asesu** | Ystyried gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau. |
| **Dosbarthu** | Trefnu yn unol â meini prawf penodol. |
| **Cymharu** | Archwilio'r pynciau'n fanwl, gan edrych ar yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol. |
| **Diffinio** | Nodi ystyr gair neu ymadrodd. |
| **Dangos** | Dangos dealltwriaeth o'r pwnc neu sut i gymhwyso sgiliau mewn sefyllfa ymarferol. |
| **Disgrifio** | Ysgrifennu am y pwnc gan roi gwybodaeth fanwl. |
| **Gwahaniaethu** | Nodi'r gwahaniaethau rhwng dau neu fwy o bethau. |
| **Trafod** | Ysgrifennu adroddiad sy'n rhoi mwy nag un farn neu safbwynt. |
| **Hynodi** | Dangos neu gydnabod y gwahaniaeth rhwng eitemau/syniadau/gwybodaeth. |
| **Amcangyfrif** | Cynnig amcangyfrif o benderfyniad neu farn gan ddefnyddio gwybodaeth flaenorol. |
| **Esbonio** | Darparu manylion am y pwnc gyda rhesymau'n dangos sut neu pam. Gallai rhai ymatebion gynnwys enghreifftiau. |
| **Rhoi (pwyntiau cadarnhaol a negyddol)** | Darparu gwybodaeth sy'n dangos manteision ac anfanteision y pwnc. |
| **Nodi** | Rhestru neu enwi'r prif bwyntiau (efallai y bydd angen rhoi disgrifiad hefyd er mwyn cael marciau uwch wrth farcio'n gyfadferol). |
| **Darlunio** | Rhoi gwybodaeth glir gan ddefnyddio enghreifftiau ysgrifenedig, lluniau neu ddiagramau. |
| **Rhestru** | Gwneud rhestr o eiriau, brawddegau neu sylwadau allweddol sy'n canolbwyntio ar y pwnc. |
| **Perfformio** | Gwneud rhywbeth (cam gweithredu/dilyn cyfarwyddyd) y mae'r cwestiwn neu'r dasg yn gofyn amdano. |
| **Cynllunio** | Ystyried a threfnu gwybodaeth mewn ffordd resymegol. Gellid cyflwyno hyn fel gwybodaeth ysgrifenedig, diagram, darlun, neu fformat addas arall. |
| **Darparu** | Rhoi gwybodaeth berthnasol am bwnc. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Myfyrio** | Dylai dysgwyr edrych yn ôl ar y camau a gymerwyd ganddynt, eu profiadau neu eu dysgu ac ystyried sut y gallai hyn lywio eu hymarfer yn y dyfodol. |
| **Dewis** | Dewis at ddiben penodol. |
| **Datgan** | Rhoi'r prif bwyntiau yn glir mewn brawddegau. |
| **Defnyddio** | Cymryd neu gymhwyso eitem, adnodd, neu ddarn o wybodaeth fel y gofynnir yn y cwestiwn neu'r dasg. |

DRAFFT

# Adran 4: cymorth

## Deunyddiau cymorth

Mae'r deunyddiau cymorth canlynol ar gael i helpu i ddarparu’r cymwysterau hyn, ac maent ar gael ar wefan NCFE:

- Taflen Ffeithiau Cymhwyster.

## Gwefannau defnyddiol

Gallai'r gwefannau canlynol fod yn ddefnyddiol i ganolfannau er mwyn cael gwybodaeth, deunyddiau ac adnoddau i'w helpu i ddarparu'r cymwysterau hyn:

**Llywodraeth Cymru – Polisi a Strategaeth**
- Cymraeg 2050:Strategaeth y Gymraeg
- Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol Cymru 2022 i 2030
- Cymorth i Dwristiaeth a Lletygarwch Cymru yn y Dyfodol
- Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr 2020 i 2025
- Cysylltiadau Polisi Diwydiant Twristiaeth Llywodraeth Cymru

**Deddfwriaeth Cymru**
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Deddfwriaeth y DU**
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Rheoliadau Amser Gweithio 1998
- Rheoliadau Trefniadau Teithio Pecyn a Threfniadau Teithio Cysylltiedig 2018
- Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015
- GDPR y DU a Diogelu Data – Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Amddiffyniad ATOL – Yr Awdurdod Hedfan Sifil

**Croeso Cymru**
- Croeso Cymru
- Croeso Cymru – Ymchwil a Mewnwelediadau
- Atyniadau Hygyrch yn Ne Cymru – Croeso Cymru
- Diwydiant Twristiaeth – Croeso Cymru
- Ymgyrchoedd Blwyddyn Thematig – Croeso Cymru
- Cymorth ac adnoddau sgiliau – Croeso Cymru
- 2026: Ymgyrch Hwyl – Croeso Cymru
- Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO yng Nghymru – Croeso Cymru

**Treftadaeth, Diwylliant ac Ymchwil yng Nghymru**
- Cadw
- Amgueddfa Cymru

DRAFFT

- Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan
- Yr Eisteddfod Genedlaethol
- Twristiaeth Hygyrch yng Nghymru: A ydym wedi cyrraedd y nod eto? – Ymchwil y Senedd

**Gyrfa a'r Gweithlu yng Nghymru**

- Adolygiad Gyrfa – Cymru'n Gweithio

**Diwydiant Cymru a'r Economi Ymwelwyr**

- Cymdeithas Tywyswyr Twristiaid Swyddogol Cymru (WOTGA)
- Maes Awyr Caerdydd
- Techniquest
- Distyllfa Penderyn

**Digwyddiadau yng Nghymru**

- Gŵyl y Dyn Gwyrdd
- Gŵyl y Gelli
- Sioe Frenhinol Cymru

Darperir y dolenni hyn fel ffynonellau gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol at ddibenion darparu/dysgu yn y maes pwnc hwn. Nid yw NCFE yn cymeradwyo'r gwefannau hyn nac unrhyw adnoddau dysgu sydd ar gael arnynt. I weld adnoddau dysgu swyddogol a gymeradwyir gan NCFE, gweler yr adrannau deunyddiau addysgu a chymorth ychwanegol ar dudalen y cymhwyster ar wefan NCFE.

## Deunyddiau cymorth eraill

Rhaid i'r adnoddau a'r deunyddiau a ddefnyddir wrth ddarparu'r cymwysterau hyn fod yn briodol i oedran, a dylid rhoi ystyriaeth briodol i lesiant a diogelwch dysgwyr yn unol â pholisi diogelu eich canolfan wrth ddatblygu neu ddewis deunyddiau darparu.

Efallai y bydd cynnyrch ar gael i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r cymwysterau hyn. I gael rhagor o wybodaeth am yr adnoddau hyn a sut i gael gafael arnynt, ewch i wefan NCFE.

### Atgynhyrchu'r ddogfen hon

Caniateir i ganolfannau cymeradwy atgynhyrchu at ddefnydd mewnol o dan yr amodau canlynol:

- cewch gopïo a gludo unrhyw ddeunydd o'r ddogfen hon; fodd bynnag, nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw gopi anghyflawn neu wallus o'r wybodaeth hon, nac unrhyw ddefnydd dilynol ohoni
- bydd defnydd o fersiynau PDF o'n deunyddiau cymorth ar wefan NCFE yn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir i ddysgwyr yn gywir a chyfredol
- ein heiddo ni yn unig yw unrhyw luniau sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn, neu fe'u defnyddir o dan drwydded gan drydydd parti:
    - fe'u diogelir yn ôl cyfraith hawlfraint, ac ni ellir eu hatgynhyrchu, eu copïo na'u haddasu mewn unrhyw ffordd
    - mae hyn yn cynnwys defnyddio unrhyw ddelwedd neu ran o ddelwedd mewn prosiectau unigol neu grŵp a deunyddiau asesu
    - mae caniatâd y model i ddefnyddio'r ddelwedd wedi'i sicrhau.

# Cysylltu â ni

NCFE
Q6
Quorum Park
Benton Lane
Newcastle upon Tyne
NE12 8BT

Ffôn: 0191 239 8000*
E-bost: customersupport@ncfe.org.uk
Gwefan: www.ncfe.org.uk

DRAFFT

**Hawlfraint NCFE © 2026 Cedwir pob hawl yn fyd-eang.**

DRAFFT Fersiwn 1.1 Hydref 2026
Mae'r wybodaeth ym Manyleb y Cymhwyster hwn yn gywir wrth i'r Fanyleb gael ei chyhoeddi, ond gallai newid.

Mae NCFE yn elusen gofrestredig (Rhif Elusen Gofrestredig 1034808) ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant (Rhif Cwmni 02896700).

Mae CACHE (Council for Awards in Care, Health and Education) ac NNEB yn nodau masnach cofrestredig sy'n eiddo i NCFE.

Mae'r holl ddeunyddiau yn y cyhoeddiad hwn yn cael eu gwarchod gan hawlfraint.

***Er mwyn parhau i wella lefelau ein gwasanaeth i gwsmeriaid, gall galwadau ffôn gael eu recordio at ddibenion hyfforddiant ac ansawdd.***

## Atodiad A: unedau

Er mwyn symleiddio asesiadau croesgyfeirio a sicrhau ansawdd, rydym wedi defnyddio system rifo ddilyniannol yn y ddogfen hon ar gyfer pob uned.

☆ Defnyddir seren i ddynodi unedau gwybodaeth-yn-unig. Os nad oes gan uned farc seren, mae'n uned sgiliau neu'n cynnwys cymysgedd o wybodaeth a sgiliau.

### Unedau gorfodol

| | Rhif yr uned | Cod yr uned | Teitl yr uned | Lefel | ODDA | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Uned 01 | TTW-02-01 | Gwasanaeth i gwsmeriaid yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 2 | 60 | |
| ☆ | Uned 02 | TTW-02-02 | Diwydiant teithio a thwristiaeth y DU | 2 | 60 | |

### Unedau dewisol

| | Rhif yr uned | Cod yr uned | Teitl yr uned | Lefel | ODDA | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☆ | Uned 03 | TTW-02-03 | Cyrchfannau teithio a thwristiaeth | 2 | 60 | |
| ☆ | Uned 04 | TTW-02-04 | Hyrwyddo mewn teithio a thwristiaeth | 2 | 60 | |
| | Uned 05 | TTW-02-05 | Atyniadau pwrpasol i ymwelwyr yn y DU | 2 | 60 | |
| | Uned 06 | TTW-02-06 | Deall gwyliau pecyn | 2 | 60 | |

DRAFT

| Rhif yr uned | Cod yr uned | Teitl yr uned | Lefel | ODDA | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 07 | TTW-02-07 | Gweithrediadau asiantaethau teithio | 2 | 60 | |
| Uned 08 | TTW-02-08 | Lletygarwch yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 2 | 60 | |
| Uned 09 | TTW-02-09 | Trefnu digwyddiad | 2 | 60 | |
| Uned 10 | TTW-02-10 | Cyflwyniad i deithiau tywys | 2 | 64 | |
| Uned 11 | TTW-02-11 | Effaith darpariaeth teithio a thwristiaeth ar gymuned letyol | 2 | 60 | |
| Uned 12 | TTW-02-12 | Twristiaeth mewn rhanbarth poblogaidd yn y DU | 2 | 60 | |
| Uned 13 | TTW-02-13 | Gwybod am feysydd awyr a chwmnïau hedfan | 2 | 60 | |
| Uned 14 | TTW-02-14 | Cynllunio gyrfa yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 2 | 60 | |
| Uned 15 | TTW-02-15 | Profiad gwaith yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 2 | 64 | |
| Uned 16 | TTW-02-16 | Twristiaeth arfordirol y DU | 2 | 60 | |
| Uned 17 | TTW-02-17 | Twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth | 2 | 60 | |
| Uned 18 | TTW-02-18 | Twristiaeth wledig y DU | 2 | 60 | |
| Uned 19 | TTW-02-19 | Deall twristiaeth arbenigol | 2 | 60 | |

DRAFT

| Rhif yr uned | Cod yr uned | Teitl yr uned | Lefel | ODDA | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 20 | TTW-02-20 | Menter yn y diwydiant twristiaeth | 2 | 60 | |

Gallai'r unedau uchod fod ar gael fel rhaglenni unedau ar wahân. Ewch i wefan NCFE i gael rhagor o wybodaeth.

DRAFFT

# Cofnod hanes newidiadau

| Fersiwn | Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad o'r newid |
|---|---|---|
| **v1.0** | | Cyhoeddiad cyntaf |
| | | |
| | | |
| | | |

DRAFFT